# RHYBUDD O GYFARFOD

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

***Emyr Williams***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 20 Mawrth 2024 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

# R H A G L E N


| | | Rhifau Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 2. | **Datgan diddordeb**<br>Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem. | |
| 3. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. | **3 - 8** |
| 4. | **Taflen Gweithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | **9 - 11** |
| 5. | **Diweddariad o'r Gyllideb 2023/24**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) | **12 - 21** |
| 6. | **Proffil Risg yr Awdurdod**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | **22 - 33** |
| 7. | **Adroddiad Diweddaru Grantiau Ariannu Allanol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma) | **34 - 48** |
| 8. | **Rhaglen Waith Corfforaethol 2023-24**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | **49 - 91** |
| 9. | **Rhyddid Gwybodaeth**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) | **92 - 94** |
| 10. | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) | **95 - 105** |
| 11. | **Pecyn '360 Wellbeing'**<br>Derbyn adroddiad llafar gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. | |
| 12. | **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**<br>Cyflwyno cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023. (Copi yma) | **106 - 109** |
| 13. | **Adroddiad Cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau**<br>Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2024. (Copi yma) | **110 - 113** |
| 14. | **Proses Recriwtio Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) APCE**<br>Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr / Pennaeth Adnoddau Dynol ar faterion sydd wedi codi ynglŷn â'r drefn benodi, a all fod angen penderfyniad ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2024. | |

**EITEM RHIF 3**

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
**DYDD MERCHER 29 TACHWEDD 2023**

Cyng. Elfed Powell Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cyng. Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cyng. Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Tracey Evans, Sarah Hattle, Tim Jones, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, David Williams, Nia Murray, Awel Gruffydd, Anwen Gaffey;

**Yn bresennol**
Bleddyn Rhys – Gwasanaeth Archwilio Mewnol

**Ymddiheuriadau**
Cynghorwyr June Jones, Kim Jones, Ifor Glyn Lloyd; Naomi Luhde-Thompson.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Louise Hughes i'r cyfarfod yn dilyn ei thriniaeth ysbyty yn ddiweddar.

2. **Datgan Budd**
   Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**
   Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 eu derbyn ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

4. **Log Gweithredu**
   Cyflwynwyd – Cofnod o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

   Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y dylai'r Log Gweithredu aros fel y'i cyflwynwyd.

   **PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu.**

5. **Diweddariad ar y Gyllideb 2023/24**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau ynghylch trosglwyddiadau sylweddol o fewn cyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol a rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf, ynghyd ag amcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Cyllid yr adroddiad manwl, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer saith mis cyntaf 2023/24 ac yn rhoi rhagamcan o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol gyfredol ar gyfer 2023/24.**

6. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2024/25**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau nodi'r Gyllideb Sylfaenol fel y'i hamcangyfrifwyd ar gyfer 202 4/25 a'r sefyllfa ariannu a ragwelir.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a'r cefndir a chadarnhaodd fod y diffyg yn y gyllideb yn cynrychioli tua 10% o gyfanswm cyllideb yr Awdurdod.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y canlynol:-

- Trafododd yr aelodau a swyddogion y cronfeydd wrth gefn a chadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal i gefnogi amrywiol brosiectau megis cynlluniau CDL ac ati.
- mewn cyfarfod diweddar â'r Gweinidog, hysbyswyd yr Is-Gadeirydd fod Llywodraeth Cymru yn profi eu blwyddyn anoddaf ers sefydlu'r Senedd.
- dywedodd y Prif Weithredwr y gallai'r Parciau Cenedlaethol fod yn destun setliad gwastad tan 2027. Unwaith y bydd y setliad drafft wedi'i gyhoeddi, byddai'r Prif Weithredwr yn cyfarfod gydag uwch Aelodau i ddechrau mynd i'r afael â'r diffyg cyllidebol a ragwelir o £877,930, y mae angen nodi hanner ohono yn y flwyddyn i ddod, cyn cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ei ystyried.
- mewn ymateb i gwestiwn ynghylch swyddi gweigion, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod penderfyniadau cyllidebol yn seiliedig ar strwythur yr Awdurdod yn hytrach nag ar swyddi unigol. Dywedodd y Prif Weithredwr mai dim ond ychydig o swyddi gwag sy'n bodoli, a bod yr Awdurdod yn parhau i recriwtio er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau. Nododd yr aelodau bod swyddogion yn hynod ofalus wrth greu unrhyw swyddi newydd ar y strwythur.
- Nododd yr aelodau mai dim ond pan na fu'n bosibl recriwtio i swydd neu pan fo'r gwaith o natur arbenigol y cyfarwyddir ymgynghorwyr allanol. Telir costau i ddechrau o danwariant o fewn gwasanaeth, megis gweithiwr yn gweithio'n rhan amser mewn swydd amser llawn. Yna mae'r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i brynu'r gwasanaeth yn allanol. Os nad yw hyn yn ddigonol yna efallai y bydd angen rhagor o arian gan yr Awdurdod. Oherwydd natur cyfarwyddo ymgynghorwyr, mae costau fel arfer yn uwch na chyflogi uniongyrchol ac felly gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cyfyngiad amser ar ddefnyddio ymgynghorwyr.
- dywedodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa ariannol bresennol yn wahanol i'r cyfnod cyni, a bryd hynny roedd yr Awdurdod yn canfod arbedion o wahanol gyllidebau. Bydd y diffyg hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benderfynu beth i beidio â'i gyflawni yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r gyllideb sylfaenol arfaethedig ar gyfer 2024/25, fel yr amlinellwyd.**

7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2022/23**
Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn amlinellu barn y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ar reolaethau mewnol o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd Bleddyn Rhys yr adroddiad, ar ran y Pennaeth Archwilio Mewnol, a rhoddodd grynodeb o'r gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23 a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr os bydd staff yn methu â chwblhau'r hyfforddiant ELMS gofynnol ar ôl nifer o nodiadau atgoffa, eu bod yn cael eu cloi allan o'r system nes bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau. Roedd disgwyl hefyd i'r aelodau gwblhau'r cwrs fel rhan o'u hyfforddiant gloywi bob 2 i 3 blynedd. Yn codi wedi hynny, cytunodd yr Aelodau i wella'r nifer sy'n manteisio ar ELMS a nodwyd bod cymorth technegol TG ar gael ym mhob cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**
1. **derbyn yr adroddiad fel "Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am y flwyddyn ariannol 202 2/23.**
2. **derbyn y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifyddu 202 3/24, yn amodol ar newid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Archwilio Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.**

8. **Arallgyfeirio Incwm**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i roi diweddariad ar gynnydd yn dilyn derbyn adroddiadau Arallgyfeirio Incwm Archwilio Cymru.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a chadarnhaodd fod y ddau argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad unigol eisoes yn eu lle ac y byddai adroddiad ar Blas Tan y Bwlch yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024. Cadarnhaodd ymhellach, ers i'r adroddiad gan Archwilio Cymru ar gyfer y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ar y cyd gael ei gyhoeddi, roedd swyddogion o Barciau Cenedlaethol Cymru wedi cyfarfod ar ddau achlysur i ystyried yr adroddiad ac, yn absenoldeb unrhyw gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Prif Weithredwr fod y gwaith hwn cael ei oedi am y tro i aros am arweiniad pellach.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-
- gofynnodd Aelod a oedd bwriad i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen o Aelodau i ystyried ffordd ymlaen yn absenoldeb Canllawiau Llywodraeth Cymru. Mynegodd y Prif Weithredwr bryderon na fyddai gan yr Awdurdod y refeniw, y cyfalaf na'r staff angenrheidiol i ddechrau ar y gwaith hwn, ynghyd â'r ansicrwydd a oedd yn gyfreithiol i wneud hynny. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai fod yn ddefnyddiol galw cyfarfod o'r Uwch Aelodau yn y Flwyddyn Newydd gan fod yr egwyddorion ar gyfer creu incwm eisoes wedi'u sefydlu yn y pecyn cymorth.
- Trafododd yr Aelodau a oedd gan yr Awdurdod y sgiliau a'r adnoddau i weithio'n fasnachol gyda chronfeydd preifat, gan fod hon yn set sgiliau tra gwahanol i'r hyn yr oedd staff yn gyfarwydd â nhw. Cytunodd yr Aelodau fod angen trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru i asesu'r hyn y gellir ei gyflawni gyda phartneriaid a chyda chyllid y sector preifat.
- mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Prif Weithredwr fod gwersi i'w dysgu o Barciau Cenedlaethol eraill, a thra bod Archwilio Cymru wedi cynnwys dwy

enghraifft o gyfleoedd arallgyfeirio incwm yn eu hadroddiad, erys i'w weld pa mor llwyddiannus y bu'r rhain o ran y tymor hwy.

- dywedodd y Prif Weithredwr, ers drafftio'r adroddiad, fod swyddogion bellach wedi cynhyrchu offeryn gwerthuso opsiynau fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi cynnwys yr adroddiad.**
2. **nodi cynnydd ar argymhellion R1 ac R2 yn Adroddiad Unigol Archwilio Cymru.**
3. **gohirio gwaith pellach ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad ar y Cyd Archwilio Cymru.**

9. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2023-24**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am chwarter cyntaf ac ail chwarter y flwyddyn ariannol (Ebrill – Medi) a chwarter tri os yn berthnasol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol a rhoddodd fanylion pellach am fformat yr adroddiad. Cynghorodd ar gywiriad i CW5.2 a ddylai ddarllen "Mae metrigau'n cael eu *monitro'n barhaus* yn y Strategaeth Gyfathrebu".

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

**Amgylcheddau Cadarn**

<u>Ymateb i Heriau Newid Hinsawdd</u>

- cadarnhaodd swyddogion fod Plas Tan y Bwlch wedi'i gynnwys yn y mesurau effeithlonrwydd ynni a adroddwyd yn AC 2.2. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd fod Plas Tan y Bwlch yn cyfrif am 50% o ôl troed carbon yr Awdurdod.

<u>Mynd i'r afael â'r Dirywiad mewn Natur</u>

- mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i drefnu gyda'r Pennaeth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth bod adroddiad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y Gwanwyn, ar ôl derbyn adroddiad SoNaRR. ym mis Mawrth 2024.
- Nododd yr aelodau fod yr adroddiad Cyflwr y Parc yn darparu'r data a'r dystiolaeth amgylcheddol.

**Cymunedau Cadarn**

<u>Cefnogi Pobl Ifanc</u>

- Nododd yr aelodau fod y Swyddog Pobl Ifanc yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda disgyblion ysgol ac arbenigwyr addysg ac y byddai'r Maniffesto Ieuenctid drafft yn barod erbyn Mawrth 2024. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ofyn i'r Swyddog Pobl Ifanc drefnu cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Maniffesto Ieuenctid yn ôl y gofyn.

<u>Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy i ychwanegu gwerth at gymunedau lleol</u>

- mewn ymateb i bryder nad oedd y Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023, esboniodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr Awdurdod yn dibynnu ar sefydliadau eraill, megis Trafnidiaeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol eraill i gyflawni'r cam hwn. Roedd cyfle i ddefnyddio'r adolygiadau sydd i ddod o Gynllun Eryri a Chynllun Datblygu Lleol Eryri fel ysgogiadau i yrru'r agenda yn ei blaen a hefyd, er nad oedd yr Awdurdod yn bartner llawn, bydd angen cydweithrediad llawn ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod wedi derbyn cadarnhad yn

ddiweddar bod gwasanaeth bws Sherpa wedi ennill Gwobr Arian y DU, sy'n dangos manteision gweithio mewn partneriaeth, a chymerodd y cyfle i ddiolch i'r Rheolwr Partneriaethau am ei gwaith. Yn codi wedi hynny, adroddodd y Prif Weithredwr ar newid yn swyddogion Trafnidiaeth Cymru ac roedd y Rheolwr Partneriaethau ar hyn o bryd yn gweithio i sefydlu perthynas waith dda gyda'r tîm newydd.

- Llongyfarchodd yr Aelodau staff yr Awdurdod ar eu cyflawniadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

10. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 202 2/23.

Adroddwyd – Yn absenoldeb y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2022/23.

**PENDERFYNWYD croesawu'r adroddiad cynhwysfawr a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022/23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

11. **Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2022/23**

Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Pennaeth Adnoddau Dynol i gynghori'r Aelodau ar faterion Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol yr adroddiad a'r cefndir a gofynnodd i'r Aelodau nodi newid bychan i fformat yr adroddiad.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- nododd Aelod bryderon bod gwasanaethu tractor ym mherchnogaeth yr Awdurdod wedi cael ei esgeuluso yn sylweddol a gofynnodd am sicrwydd nad oedd hyn yn wir am beiriannau a cherbydau eraill yr Awdurdod. Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau mai digwyddiad unigol oedd hwn ac eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi deillio o newidiadau staff ym Mhlas Tan y Bwlch. Cadarnhaodd fod y tractor bellach wedi'i werthu ac nad oedd bellach yn peri risg. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr Aelodau hefyd fod gan yr Awdurdod weithdrefnau yn eu lle, ar ffurf Asesiadau Risg, i leihau risgiau a bod staff yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol.
- holodd aelod a fyddai marcio pryd fydd y gwasanaeth nesaf ar bob eitem o beirianwaith yn rhoi haen arall o ddiogelwch?
- Croesawodd yr aelodau benodiad Swyddog Iechyd a Diogelwch, a all hefyd gefnogi'r staff sy'n gweithio gartref.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

12. **Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i roi diweddariad i'r aelodau ar y cynnydd.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy'r adroddiad yn fanwl a rhoddodd drosolwg o'r flwyddyn 2023/24 hyd yma.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy fod y Canolfannau Croeso yn gweithio gyda'u cymunedau i hyrwyddo a darparu gwybodaeth am atyniadau twristiaeth lleol. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu mapiau, ar sail cyfanwerthu i feysydd carafanau lleol ac ati, ac atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau o Gynllun Llysgenhadon Eryri, a ddatblygwyd ar gyfer y diwydiant twristiaeth busnes lleol, sydd â thros fil o aelodau ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

13. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023, er gwybodaeth.

Adroddwyd - Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion a dywedodd fod y Bwrdd wedi cytuno yn eu cyfarfod, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023, y byddai adroddiad manwl gydag opsiynau yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024, pryd y bydd swyddogion mewn sefyllfa i roi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Aelodau. Bydd adroddiad wedyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2024 ar gyfer penderfyniad ffurfiol.

Trafododd yr Aelodau a’r swyddogion y canlynol:-

- mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Prif Weithredwr er y byddai'n bosibl darparu dadansoddiad am rediad y ganolfan o ddydd i ddydd, roedd cost net rhedeg Plas Tan y Bwlch flwyddyn ar ôl blwyddyn yn fwy defnyddiol ar hyn o bryd.
- Sicrhawyd yr aelodau y byddai'r adroddiad i'r Gweithgor yn cynnwys data ar garbon i alluogi penderfyniad gwybodus.
- nododd Aelod tra bod cost net rhedeg Plas Tan y Bwlch yn ddefnyddiol, byddai’r busnes yn elwa o wybod pob agwedd, megis darparu dadansoddiad o ddefnyddwyr a nodi pa ran o’r busnes sy’n broffidiol ac ati.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.45**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri | **PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.** | Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri. | JC | Bydd Strategaeth Carbon Isel Ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Llywio Cyfrif Carbon ym mis Chwefror 2024, gyda'r bwriad o gael ei mabwysiadu gan yr Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n ofynnol yn yr adolygiad o'r CDLl a Chynllun Eryri, ochr yn ochr â rôl arwain ac eiriolaeth yr Awdurdod nawr ei fod wedi ymuno â'r fenter 'Ras i Sero'. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 12.07.2023

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru | **PENDERFYNWYD aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.** | Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i baratoi adroddiad. | PW | Adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd '23. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar arallgyfeirio incwm yn dilyn adroddiad 3 APC ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru. Cyflwynwyd adroddiad penodol ar reolaeth Plas Tan y Bwlch i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024. | **NA** |
| 11. Rhaglen Waith Corfforaethol 2022/23 - Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant | <u>Gwella Rheolaeth Hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol Hamdden</u><br>Yn dilyn cais gan Aelod, i ddatblygu polisi nofio gwyllt. | Adroddiad i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol . | AJ/PR | I'w gynnwys fel rhan o eitem i'r Gweithgor ar 24.01.24 : Adroddiad Rheolwr Mynediad a Llesiant (ffigyrau llwybrau a mynediad i ddŵr/nofio gwyllt). | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 29.11.2023

| EITEM RHIF. A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Arallgyfeirio Incwm | **PENDERFYNWYD gohirio rhagor o waith ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad Archwilio Cymru.** | Y Prif Weithredwr i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad maes o law. | PW | Dim cynnydd. | |

**EITEM RHIF 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD O GYLLIDEB 2023-24** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Cyllid |
| **PWRPAS** | I hysbysu'r Aelodau –<br>- o drosglwyddiadau sylweddol,<br>- o'r cynnydd yn erbyn y gyllideb refeniw a chyfalaf, ynghyd ag amcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2023/24 gyda newidiadau sy'n adlewyrchu'r cyfnod o ddechrau'r flwyddyn ariannol h.y.1af o Ebrill 2023 hyd at yr 29ain o Chwefror 2024.

1.2 Mae rhan 4 o'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb net refeniw, ynghyd â chymhariaeth gyda'r sefyllfa o'r un cyfnod yn 2022/23.

1.3 Mae cytundeb ar raddfeydd cyflog wedi ôl-ddyddio i Ebrill 1af , 2023 bellach wedi ei dderbyn a'r newidiadau yma wedi eu hychwanegu i'r gyllideb.

1.4 Mae cynlluniau grant 'Tirwedd Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy' (T.C.Ll.C) 2022/23 - 2024/25 yn parhau. Cyfanswm gwerth y cynlluniau yma yw £2.5 miliwn gydag amcan o'r gwariant wedi neilltuo dros y tair blynedd a £850,000 ar gyfer 2023/24.

1.5 Mae grant ychwanegol T.C.Ll.C ar y cyd â pharciau cenedlaethol eraill Cymru a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae hyd at £500k wedi ei glustnodi dros dair blynedd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gweinyddu'r cynllun. Derbyniodd yr Awdurdod £150,000 yn 2022/23 gyda £218,750 ar gael ar gyfer y cynllun ar y cyd yn 2023/24.

1.6 Mae cynllun grant cyfalaf Prosiect Tŷ Natur yn parhau yn 2024/25 gyda'r gwariant yn cael ei hawlio nôl drwy gais i Gyngor Gwirfoddol Gweithredu Cymru (CGGC). Mae cynlluniau grant Treftadaeth y Loteri megis Carneddau hefyd yn parhau.

1.7 Ar 7fed Mawrth 2024, wedi trafodaethau hefo Llywodraeth Cymru ynglŷn a'r pwysau cyllidebol oedd yn gwynebu yr Awdurdod, cawsom wybod bod y Llywodraeth wedi dyfarnu grant ychwanegol er mwyn cyfarch yr her hon.

| | Refeniw | Cyfalaf |
|---|---|---|
| Cyfalaf ychwanegol a ddyfarnwyd gan TDMGG | | £58.3k |
| Pecyn cyllido ychwanegol a gadarnhawyd ar 21/02/24 | £545k | £154k |
| Pecyn cyllido ychwanegol a gadarnhawyd ar 07/03/24 | £660k | £650k |
| **Cyfanswm** | **£1,205k** | **£862.3k** |

Bydd yr elfen refeniw ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer lleihau/ dileu y diffyg yn y gyllideb, ond bydd angen blaenoriaethu'r defnydd o'r arian ychwanegol yma ar ol pwyso a mesur y defnydd mwyaf addas ohono dros yr wythnosau nesaf. Bydd yr elfennau cyfalaf yn cyllido costau ychwanegol Hafod Eryri, ac ar gyfer mynd i'r afael ag ôl-groniadau cynnal a chadw cyfalaf a phwysau/blaenoriaethau cyfalaf eraill, yn unol a'r blaenoriaethau a amlinellir gan Llywodraeth Cymru.

## 2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2023-24

2.1 Cafodd y Gyllideb Net Wreiddiol ei chymeradwyo gan yr Awdurdod ar yr 8fed o Chwefror 2023.

| Gwasanaethau | Cyllideb Sylfaenol | Trosgl. cynt £ | Trosglwydd-iadau | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | | £ | £ |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,309,185 | 69,523 | 7,900 | 2,386,608 |
| Corfforaethol | 5,038,111 | 412,705 | 10,000 | 5,460,816 |
| Balansau | 261,600 | 231,600 | - | 30,000 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau** | **7,608,896** | **153,005** | **17,900** | **7,877,424** |
| | | | | |
| Llog a ennilwyd ar falansau | - 28,000 | - 92,000 | - | - 120,000 |
| Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf | 503,970 | 218,889 | 375,030 | 1,097,889 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | - | - | - 591,050 |
| **Cyllideb net** | **7,493,816** | **279,894** | **392,930** | **8,264,263** |
| | - | - | - | - |
| **Arianwyd o** | - | - | - | - |
| Grant Parciau Cenedlaethol | 4,119,789 | - | - | 4,119,789 |
| Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | - | - | 1,373,262 |
| | **5,493,051** | **-** | **-** | **5,493,051** |
| Trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn | 2,000,765 | 377,517 | 392,930 | 2,771,212 |
| **Cyllideb Net ddiwygiedig** | **7,493,816** | **-** | **-** | **8,264,263** |

2.2 Mae dadansoddiad manwl yn atodiad 1 yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth ar 29ain o Chwefror 2024. Mae'r atodiad hefyd yn manylu ar y trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r cronfeydd wrth gefn.

## 3. CYLLIDEB GYFALAF DIWYGIEDIG

3.1 Dangosir crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf 2023-24 yn y tabl canlynol, gyda'r manylder yn Atodiad 2. Nid yw prosiectau grant T.C.LL.C wedi eu cynnwys isod gan fod yr arian yn cael ei hawlio nol gyda dim côst ychwanegol i'r awdurdod.

**Cyllideb Cyfalaf 2023/24**

| Meysydd Gwasanaeth | Cyllideb Gros Wreiddiol | Incwm Grant | Cyllideb Net Wreiddiol | Trosgl. | Trosgl. Newydd | Cyllideb Net Ddiwyg. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 122,630 | - | 122,630 | 120,316 | 148,230 | 391,176 |
| Corfforaethol | 381,340 | - | 381,340 | 98,573 | 226,800 | 706,713 |
| **Cyfanswm** | **503,970** | **-** | **503,970** | **218,889** | **375,030** | **1,097,889** |

3.2 Mae'r addasiadau uchod yn bennaf yn deillio o wariant sylweddol ar Hafod Eryri gyda chostau uwch na'r disgwyl, gwerth £217k, ynghyd a gwariant ar gynlluniau o fewn y gwasanaeth Cadwraeth Coed ac Amaeth, megis Prosiect Tŷ Natur a Llefydd Lleol i Natur sydd yn gynllun tair blynedd hyd at 2025, a prosiect 'Mind the Gap'.

3.3 Mae gwaith yn parhau ar gynlluniau T.C.Ll.C ac hefyd ar nifer o gynlluniau grant hanesyddol sydd heb eu cyflawni am amryw o resymau megis y pandemig Cofid-19, diffyg adnoddau neu oedi cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau wedi eu hariannu o grantiau Llywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill lle trosglwyddwyd yr arian i gronfeydd wrth gefn.

## 4. SEFYLLFA RAGWELEDIG 2023-24

4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi’r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 29 Chwefror 2024, a chymhariaeth gyda’r un cyfnod yn 2022/23.

| Gwasanaethau | Cyllideb Net Ddiwygiedig | Gwariant Net hyd yma | Cymhariaeth 2022/23 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|
| | (£) | (£) | (£) | (£) |
| | | | | |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,386,608 | 2,254,509 | 1,244,676 | 1,009,833 |
| Corfforaethol | 5,460,816 | 4,074,855 | 2,985,329 | 1,089,525 |
| Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau | 30,000 | - | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant i wasanaethau** | **7,877,424** | **6,329,364** | **4,230,005** | **2,099,359** |
| | | | | - |
| Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben | - 120,000 | - 193,486 | - 22,472 | - 171,014 |
| Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf | 1,097,889 | 870,658 | 500,421 | 370,237 |
| Addasiadau Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | - 591,050 | - 591,050 | - |
| **Cyllideb Refeniw Net** | **8,264,263** | **6,415,485** | **4,362,994** | **- 2,052,492** |
| | | | | |
| **Arianwyd o:** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | |
| Lefi Awdurdod Cyfansoddol | 1,373,262 | | | |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 2,000,765 | | | |
| **Cyllideb Net Wreiddiol** | **7,493,816** | | | |
| | | | | |
| Grant Ychwanegol Llywodraeth Cymru | - | | | |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 770,447 | | | |
| **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **8,264,263** | | | |

4.2 I grynhoi, mae’r sefyllfa o ran gwariant net y gwasanaethau yn parhau i gymharu’n ffafriol a gwariant net o’r un cyfnod yn 2022/23, ond mae effaith pwysau chwyddiant wedi bod yn heriol iawn yn ystod y flwyddyn.

Mae gwariant yn parhau yn uwch ar elfennau a effeithir gan chwyddiant, yn benodol ar ynni ond mae’r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn ymddangos yn ddigonol.Gan nad yw’r raddfa chwyddiant wedi gostwng mor sydyn a ragwelwyd, mae’r cyfraddau llog yn parhau’n uchel. Mae hyn yn parhau i arwain at incwm llog sylweddol i’r Awdurdod. Cynyddwyd y gyllideb/targed incwm llog i £120k i adlewyrchu hyn ac mae’r targed yma eisoes wedi ei uchafu gyda dros £190k o incwm wedi ei dderbyn hyd yma yn 2023/24.

Cyflwynir isod esboniadau am rai o’r amrywiannau a gwariant annisgwyl a ragwelir hyd yma.

4.3 **Corfforaethol**:

Plas Tan y Bwlch – Rhagwelir gorwariant sylweddol o oddeutu £170k, gyda'r gorwariant yn deillio yn bennaf o gostau cynnal a chadw. Mae'r costau yma tu hwnt i reolaeth Plas fel elfen fasnachol, ac yn gostau ni ellir eu hosgoi. Mae gorwariant hefyd ar wasanaethau a chyflenwadau gyda rhywfaint o gynnydd yn yr incwm sydd yn negydu rhywfaint o'r effaith ar y waelodlin.

Meysydd Parcio, Casglu Sbwriel a Chyfleusterau Ymwelwyr – Rhagwelir bydd incwm Maesydd Parcio a Llyn Tegid yn uwch na'r gyllideb o oddeutu £160k. Mae'r prysurdeb yma wedi arwain at gynnydd mewn sbwriel gyda gorwariant cyffelyb ar gasglu sbwriel a chyfleusterau ymwelwyr o oddeutu £60k.

Ymgysylltu - Bu addasiadau mewnol yn ystod y flwyddyn ar strwythur a staff o fewn y gwasanaethau yma. Mae'r newidiadau bellach wedi eu hymgorffori a disgwylir gorffen o fewn y gyllideb.

Canolfannau Ymwelwyr - Mae'r canolfannau yn perfformio yn well na'r gyllideb hyd yma eleni gydag incwm yn goresgyn y targed a osodwyd yn wreiddiol. Mae'r cynnydd mewn gwerthiannau wedi arwain at orwariant sylweddol ar nwyddau i'w hailwerthu ond yr incwm ychwanegol yn cwrdd â hyn. Nid yw'r Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy yn rhagweld unrhyw newid sylweddol a all arwain at orwariant eleni.

Eiddo – Rhagwelir gorwariant o oddeutu £60k, yn bennaf o ganlyniad costau ychwanegol yn ymwneud a prisio eiddo, ynghyd a ffioedd rheoli prosiect Hafod Eryri a chostau ychwanegol tiroedd yn gyffredinol.

Cefnogaeth Awdurdod a Chostau Aelodau – Rhagwelir tanwariant o oddeutu £35k o fewn y gwasanaeth gan fod yr Awdurdod yn fyr o aelod yn ystod y flwyddyn, a cyfnod heb Is-Gadeirydd.

Rheolaeth Corfforaethol – Rhagwelir tanwariant o oddeutu £26k o ganlyniad swydd wag o fewn y gwasanaeth.

Cyllid – Rhagwelir tanwariant o oddeutu £20k o ganlyniad swydd wag o fewn y gwasanaeth.

Cyfreithiol – Rhagwelir gorwariant o oddeutu £35k yn dilyn costau ychwanegol o ganlyniad achos mast Pen y Pass. Rhagwelir ad-ennill rhywfaint o'r costau ond nid yw'r swm, na'r amserlen yn hybys eto.

Adnoddau Dynol – Rhagwelir gorwariant o £12k o ganlyniad costau hyfforddiant ychwanegol.

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir**: Ar y cyfan, mae'r gwariant net hyd yma o fewn y gyllideb. Mae disgwyl amrywiannau posib o fewn rhai o'r gwasanaethau lle mae'r gyllideb yn cael ei fonitro gan y penaethiaid a'r cyfarwyddwr. Ymhelaethir ar y prif wasanaethau dan sylw isod.

Treftadaeth Ddiwylliannol a Carneddau - Mae'r cynlluniau yma yn cael eu hariannu yn bennaf gan grantiau, gyda dau o'r cynlluniau yn dod i ben cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Disgwylir bydd unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad diwedd y cynlluniau yn cael eu hariannu o fewn y grant.

Cynllunio – Rhagwelir gorwariant o £20k. Mae trosiant staff o fewn y gwasanaeth cynllunio wedi arwain at swyddi gwag am gyfnod gan effeithio ar allbwn y gwasanaeth. Mae'r angen i ddarparu gwasanaeth arbenigol yn parhau serch hynny gyda gwariant sylweddol ar ymgynghorwyr allanol o ganlyniad i'r swydd wag. Disgwylir i'r sefyllfa barhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyda'r pennaeth a'r cyfarwyddwr yn adolygu ar sail gyson. Yn ychwanegol, disgwylir i'r llwyth gwaith gynyddu ymhellach yn sgil oblygiadau 'Erthygl 4' gyda phosibilrwydd o'r angen i ariannu oriau staff ychwanegol.

Ysgwrn – Rhagwelir gorwariant o £18k yn erbyn y gyllideb net gan fod incwm yn llai na'r targed a osodwyd yn wreiddiol. Mae'r pennaeth wedi adrodd gorwariant yn erbyn y gyllideb ar sawl achlysur, ac o ganlyniad rydym wedi addasu y gyllideb ar gyfer 2024/25 er mwyn adlewyrchu targed fwy realistig.

Cadwraeth, Coed ac Amaeth – Mae arbediad sylweddol o fewn y gwasanaeth o £170k. Mae nifer o gynlluniau sydd ynghlwm â'r gwasanaeth yma wedi derbyn grantiau i gyfrannu at amser staff. Mae aelodau staff yn parhau i geisio denu grantiau a fydd yn galluogi'r gwasanaeth i ymestyn neu ddarparu dilyniant i rai o'r cynlluniau. Pan osodwyd y gyllideb yn wreiddiol roedd nifer o gyflogau'r gwasanaeth wedi eu nodi yn erbyn y waelodlin, ac felly o ganlyniad i'r grantiau ychwanegol, mae arbediad o fewn y gwasanaeth. Y bwriad yw neilltuo cyfran o unrhyw danwariant i alluogi'r pennaeth i gynllunio am gyfnod estynedig a pharatoi at ddiwedd cynlluniau megis 'Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru - LIFE'.

4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** - Mae'r ddarpariaeth chwyddiant gwreiddiol o £30,000 yn parhau heb ei ddosrannu, gyda disgwyl i'r arian gael ei neilltuo ar ddiwedd. Mae'r ddarpariaeth chwyddiant cyflogau o £231,600 wedi ei ddefnyddio i gyfrannu at y cynnydd mewn cyflogau a gadarnhawyd ym mis Tachwedd.

4.6 **Llog** : Mae'r cyfraddau llog yn parhau yn uchel yn sgil sefyllfa'r economi. O ganlyniad mae'r incwm llog yn sylweddol uwch na'r targed gwreiddiol o £28,000 a bellach wedi uchafu'r targed diwygiedig o £120,000. Ar ddiwedd Chwefror roedd yr incwm llog yn £193,486.

4.7 **<u>Cyfalaf</u>**: Mae'r prif wariant net hyd ddiwedd Chwefror yn cynnwys -

| | |
|---|---|
| Eryri - Carbon a Ni (T.C.Ll.C) | £201,685 |
| Cynllun Cronfa Dreftadaeth y Loteri Dolgellau | £142,617 |
| Hafod Eryri | £217,527 |
| Twristiaeth (T.C.Ll.C) | £105,875 |
| Cader Idris (Grant. Ll. Cymru) | £78,130 |
| Llefydd Lleol i Natur | £64,406 |
| Adfywio Harlech (Grant. Ll. Cymru) | £53,626 |
| Eryri Cymunedol | £53,482 |
| System Technoleg Gwybodaeth Cynllunio | £45,149 |

4.8 Mae'r gwariant cyfalaf yn Hafod Eryri bellach tu hwnt i'r disgwyl, ac fel nodwyd eisioes bydd grant pellach gan Llywodraeth Cymru yn cyllido y gwariant yma. Bydd y gwaith yn parhau i fewn i'r flwyddyn ariannol newydd. Nid oes disgwyl i unrhyw wariant cyfalaf arall gynyddu tu hwnt i'r gyllideb sydd wedi ei osod neu'r symiau o arian sydd wedi ei neilltuo mewn cronfeydd gan yr Awdurdod.

## 5. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU DROS £30,000 ER SYLW'R AWDURDOD.

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo yn flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Nid oes unrhyw drosglwyddiadau perthnasol yn ystod y cyfnod hyd at 29/02/2024.

## 6. ARGYMHELLIAD

- **Derbyn yr adroddiad a nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf 2023/24.**

## 7. PAPURAU CEFNDIROL

**Dim**

**Atodiad 1**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 29 o Chwefror 2024

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwydd-iadau | Trosgl. Newydd | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | | | | |
| Cadw Coed | - | - | 7,900 | 7,900 |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 585,410 | 32,531 | - | 617,941 |
| Awyr Dywyll | 54,430 | 2,530 | - | 56,960 |
| LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd | 588,820 | 13,730 | - | 602,550 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | 24,995 | 5 | - | 25,000 |
| Archeoleg | 65,000 | 14,050 | - | 79,050 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 75,780 | 2,540 | - | 78,320 |
| Treftadaeth Treflun Dolgellau | 24,630 | 1,910 | - | 26,540 |
| Cynllun Harlech ac Ardudwy | 53,880 | - 11,570 | - | 42,310 |
| Ysgwrn | 113,040 | 4,827 | - | 117,867 |
| Cynllunio | 723,200 | 8,970 | - | 732,170 |
| **Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen** | **2,309,185** | **69,523** | **7,900** | **2,386,608** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Costau Aelodau | 112,510 | - | - | 112,510 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 91,530 | 4,320 | - | 95,850 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 597,001 | 87,894 | - | 684,895 |
| Eiddo | 241,400 | 11,080 | - | 252,480 |
| Cyfreithiol | 56,320 | 8,060 | - | 64,380 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 218,990 | 12,313 | - | 231,303 |
| Cyfieithu | 106,000 | 2,520 | - | 108,520 |
| Personel a Hyfforddiant | 149,910 | 6,380 | - | 156,290 |
| Pencadlys | 260,370 | 1,826 | - | 262,196 |
| Systemau Gwybodaeth | 355,350 | 39,740 | - | 395,090 |
| Cyllid | 294,230 | 18,210 | - | 312,440 |
| Plas Tan y Bwlch | 462,100 | 37,323 | - | 499,423 |
| Ymgysylltu | 490,740 | - 20,510 | - | 470,230 |
| Safle Gwe Newydd | 15,550 | 42,340 | - | 57,890 |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **3,452,001** | **251,496** | **-** | **3,703,497** |

**Atodiad 1 parh.**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 ar 29 Chwefror 2024

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwydd - iadau | Trosgl. Newydd | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen** | | | | |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | **2,309,185** | **69,523** | **7,900** | **2,386,608** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | **3,452,001** | **251,496** | **-** | **3,703,497** |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant Ll.C.) | 36,080 | 2,540 | 10,000 | 48,620 |
| Llwybrau Llesiant (Grant Ll.C.) | 40,000 | - | - | 40,000 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 345,770 | 6,143 | - | 351,913 |
| Wyddfa Di-Blastig | - | 53,150 | - | 53,150 |
| Canolfannau Gwybodaeth | 165,920 | 17,420 | - | 183,340 |
| Llyn Tegid | - 26,410 | 4,866 | - | - 21,544 |
| Meysydd Parcio | - 502,720 | 8,100 | - | - 494,620 |
| Clirio Ysbwriel | 19,510 | - | - | 19,510 |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | - | - | 5,000 |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 263,450 | 11,770 | - | 275,220 |
| Mynediad Cyhoeddus | 123,940 | 4,070 | - | 128,010 |
| Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr | 1,115,570 | 53,150 | - | 1,168,720 |
| | **5,038,111** | **412,705** | **10,000** | **5,460,816** |
| | | | | |
| **BALANSAU** | | | | |
| Darpariaeth chwyddiant cyffredinnol | 30,000 | - | | 30,000 |
| Darpariaeth chwyddiant cyflogau | 231,600 | - 231,600 | - | - |
| | **261,600** | **- 231,600** | **-** | **30,000** |
| | | | | |
| | **7,608,896** | **250,628** | **17,900** | **7,877,424** |
| **CYFANSWM** | | | | |
| Llog a Enillwyd | - 28,000 | - 92,000 | | - 120,000 |
| Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf | 503,970 | 218,889 | 375,030 | 1,097,889 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | | | - 591,050 |
| | **7,493,816** | **377,517** | **392,930** | **8,264,263** |
| **ARIANWYD O** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | 4,119,789 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | | 1,373,262 |
| Tros. o'r cronfeydd wrth gefn | 2,000,765 | 377,517 | 392,930 | 2,771,212 |
| **Cyllideb Net** | **7,493,816** | | | **8,264,263** |

| | | | | | | Atodiad 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Cyfalaf 2023/24** | | | | | | |
| **Meysydd Gwasanaeth** | **Cyllideb Gros Wreiddiol (£)** | **Incwm Grant (£)** | **Cyllideb Net Wreiddiol (£)** | **Trosgl. (£)** | **Trosgl. Newydd (£)** | **Cyllideb Net Ddiwyg. (£)** |
| **Cynllunio a Rheoli Tir** | | | | | | |
| Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol | 72,000 | - | 72,000 | 70,316 | - | 142,316 |
| Cynllun Harlech ac Ardudwy | - | - | - | 50,000 | - | 50,000 |
| Carneddau - Data LiDAR (Grant Ll. C.) | 15,630 | - | 15,630 | - | - | 15,630 |
| Carneddau - Llwybrau (Grant Ll. C.) | 35,000 | - | 35,000 | - | - | 35,000 |
| Mind the Gap' | - | - | - | - | 36,400 | 36,400 |
| Llefydd Lleol Natur | - | - | - | - | 94,580 | 94,580 |
| Gwaith Gwyw Ynn | | | | | 17,250 | 17,250 |
| **Is-gyfanswm** | **122,630** | **-** | **122,630** | **120,316** | **148,230** | **391,176** |
| | | | | | | |
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid. | 22,340 | - | 22,340 | - | - | 22,340 |
| System TG - Cynllunio (Grant Ll. C.) | - | - | - | 47,314 | | 47,314 |
| Dathliadau 70 oed (Grant Ll. C.) | 15,000 | - | 15,000 | - | - | 15,000 |
| Cynllun Partneriaeth y Wyddfa (Grant Ll. C.) | 15,000 | - | 15,000 | - | - | 15,000 |
| Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Ll. C.) | 25,000 | - | 25,000 | - | - | 25,000 |
| Betws y Coed (Grant Ll. C.) | 72,000 | - | 72,000 | - 8,220 | | 63,780 |
| Prosiectau Mynediad | 10,000 | - | 10,000 | 660 | | 10,660 |
| Wardeniaid - Cerbydau | 14,000 | - | 14,000 | 55,719 | | 69,719 |
| Penmaen Brith (Grant Ll. C.) | 25,000 | - | 25,000 | - | | 25,000 |
| Llyn Cynwch (Grant Ll. C.) | 70,000 | - | 70,000 | - | | 70,000 |
| Nant Gwynant (Grant Ll. C.) | 38,000 | - | 38,000 | - | | 38,000 |
| Cader Idris (Grant Ll. C.) | 75,000 | - | 75,000 | - 6,900 | | 68,100 |
| Wyddfa Di-blastig | - | - | - | 10,000 | - | 10,000 |
| Hafod Eryri | | | | | 216,800 | 216,800 |
| Cadair Idris | | | | | 10,000 | 10,000 |
| **Is-gyfanswm** | **381,340** | **-** | **381,340** | **98,573** | **226,800** | **706,713** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **503,970** | **-** | **503,970** | **218,889** | **375,030** | **1,097,889** |

**EITEM RHIF 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | **PROFFIL RISG YR AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod |

**CEFNDIR**

1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.

1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodeb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym mis Tachwedd 2023 (manylder yn Atodiad 1).

1.3 Ar hyn o bryd, mae 17 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil. O'r rhain mae 2 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, mae 14 wedi cael eu nodi fel risgiau canolig ac 1 wedi cael ei nodi yn risg Isel.

1.4 Dyma grynodeb o'r risgiau:

| Rhif y Risg | Risg Uchel | Newid |
|---|---|---|
| 1 | Diffyg arian cyllido digonol. | Dim |
| 2 | Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch). | Dim |

| Rhif y Risg | Risg Canolig | Newid |
|---|---|---|
| 4 | Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn | Dim |
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Methu a chyflawni gofynion y ddeddf “Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol”. | Dim |
| 7 | Risgiau i’r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid “heb ei gadarnhau” (un ai cyfraniadau cyfalaf neu “heb fod yn arian”) yng nghyfnod oes y prosiect. | Dim |
| 8 | Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018. | Dim |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt. | Dim |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol. | Dim |
| 11 | Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol. | Dim |
| 12 | Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol. | Dim |
| 13 | Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol. | Dim |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso). | Dim |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Dim |
| 16 | Sicrhau dyfodol tymor hir ar gyfer Plas Tan y Bwlch. | Dim |
| 17 | Risg o ymosodiad Seibr | Dim |

| **Rhif y Risg** | **Risg Isel** | **Newid** |
|---|---|---|
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Dim |

**GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**
Dim yn codi o’r Adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**
**Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**PAPURAU CEFNDIR**
Cofrestr Risg: Diweddariad Mawrth 2024.


## COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI — Mawrth 2024

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canl yniad | | Effaith | Tebyg | Canly niad | | | |
| 1 | Diffyg arian cyllido craidd digonol. | Torri Gwasanaethau. | 5 | 5 | **25**<br>**Coch** | Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2024, ac fe'i sefydlwyd ar sail dim newid i Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25. Roedd hyn yn parhau'r cynnydd sero yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol, er bod yr Awdurdod yn profi lefelau chwyddiant na welwyd ers y 1980au.<br><br>Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfraniad net o £1,061,760 o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, sy'n cynnwys £731,330 o gyllid refeniw a £330,430 o gyfalaf. Mae hon yn lefel ddigynsail o ddefnydd cronfeydd wrth gefn, ac er bod rhywfaint o hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r defnydd o grant a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r defnydd o gronfeydd eraill yn gynaliadwy yn y tymor hir.<br><br>Mewn blynyddoedd blaenorol, mae APCE wedi gallu cadw hyblygrwydd gyda'i gronfeydd wrth gefn ac mae wedi cadw lefel ddoeth o arian i allu cydbwyso'r gyllideb heb weithredu toriadau brys. Fodd bynnag, ystyriwyd arbedion ar gyfer 2024/25 a bydd yn rhaid i hyn barhau yn y blynyddoedd i ddod, gydag effaith niweidiol ar wasanaethau, oni bai bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.<br><br>Yn dilyn adroddiad gan Archwilio Cymru, mae nifer o argymhellion wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i nodi opsiynau ar gyfer codi incwm - ac egluro'r risgiau cysylltiedig - ond mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio nes bod canllawiau wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru. | 4 | 4 | **16**<br>**Coch** | | A<br>(Adolyg-wyd 15.11.23) | Prif Swyddog Cyllid |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Risg Cynhenid | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | Effaith | Teby g. | Can-lyniad | | | |
| 2 | Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | **20**<br>**Coch** | Yn dilyn y pandemig a'r nifer o gyfnodau clo mae Plas Tan y Bwlch wedi bod yn gweithredu model busnes hybrid sy'n cynnwys ceisio gwneud y gorau o'r farchnad dwristiaid trwy gynnig pecyn Gwely a Brecwast i ymwelwyr, cynnal digwyddiadau arbennig fel cynadleddau a phriodasau, a chroesawu rhywfaint yn ôl o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel defnyddwyr craidd blaenorol Plas Tan y Bwlch.<br><br>At ei gilydd, mae hyn wedi cwrdd â chanlyniadau cymysg. Er bod incwm wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn anffodus mae'r costau cyffredinol wedi cynyddu hefyd, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y pwysau chwyddiant sy'n wynebu Plas Tan y Bwlch. Gyda'r pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn gyffredinol mae angen cynyddol i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod y diffyg ac ystyried opsiynau tuag at y dyfodol.<br><br>Mae Archwilio Cymru wedi argymell bod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod o fewn 12 mis. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi cael y dasg o lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch. Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur i'r Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac ystyriodd yr Awdurdod y mater yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, pan gytunodd i fabwysiadu dull deuol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y mater nesaf ym mis Medi 2024. | 4 | 5 | **20**<br>**Coch** | | A<br>(Adolyg-wyd 15.11.23) | Cyf. Gwas. Corfforae-thol |
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | **20**<br>**Coch** | Mae'r targed incwm wedi ei wireddu o fewn y flwyddyn ariannol yn dilyn prif dymor prysur arall, er gwaethaf tywydd ansefydlog ar benwythnosau yn enwedig yn Awst. Mae angen cynhyrchu gwarged unwaith eto eleni er mwyn ariannu costau system rhag-archebu a diogelwch Pen y Pass. Bydd angen yn ogystal defnyddio canran o warged i uwchraddio peiriannau talu ac arddangos gan fod oes y caledwedd (hardware) wedi dod i ben. Bwriedir manteisio ar y cyfle i newid darparwr i arbed costau trafodion cerdyn. | 4 | 1 | **4**<br>**Gwyrdd** | | A<br>(Adolyg-wyd 15.11.23) | Pennaeth Eiddo |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | | |
| 4 | Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau. | 5 | 3 | **15**<br><br>**Coch** | Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae'r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle.<br><br>Mae'r Yr Ysgwrn yn dangos patrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar geisiadau hyn, gan chwilio am gyfleoedd nawdd yn rheolaidd.<br><br>Mae cywaith Geiriau Diflanedig wedi arwain at gyfnodau llewyrchus yn ystod tymor 2023. Mae cyfres o adnoddau addysg Cwricwlwm i Gymru newydd wedi'u lansio ac mae diddordeb gan ysgolion yn dda. Mae arddangosfa newydd ar y gweill ar gyfer 2024-25 a chywaith newydd ar ffilm Hedd Wyn gyda Phrifysgol Bangor. Y nod ydi ehangu apel Yr Ysgwrn a galluogi grwpiau ac unigolion i ddarganfod y safle o'r newydd, dro ar ol tro. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | → | A<br><br>(Adolygwyd 15.11.23) | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.<br><br>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Yn ystod 2023 darparwyd gwasanaeth bws Sherpa gwell, a chyflwynwyd rheolaeth traffig priffyrdd (llinellau melyn dwbl) mewn lleoliadau penodol.<br><br>Cytunwyd ar Grŵp Trafnidiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei gytuno. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafnidiaeth ddarparu cyfleoedd pellach. Ni gyfarfu grŵp Trafnidiaeth Eryri yn ystod 2023, ond mae'r grŵp wedi'i ailymgynnull a chyfarfod ym mis Ionawr 2024. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | → | A<br><br>(Adolygwyd 15.11.23) | Prif Weithredwr / Rheolwr Partneriaethau |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | | |
| 6 | Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. | Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.<br><br>Mae astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) wedi'i chyhoeddi ac mae adroddiad atodol ar y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gynhyrchu. Bydd archwiliad perfformiad ar gyfer 2023/24 yn ystyried "Cydraddoldeb ac Amrywiaeth"<br><br>Dim cynnydd ar yr archwiliad hwn hyd yma, fodd bynnag darparwyd hyfforddiant i aelodau'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | → | C<br>(Adolygwyd 15.11.23) | Prif Weithredwr |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 7 | Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwylir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect. | Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da. | 3 | 4 | **12**<br><br>**Ambr** | **Amserlen:** Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026.<br>**Pwrpasau Cymeradwy:** Mae dros hanner gwariant y gyllideb wedi'i gwblhau, gyda sawl elfen cost uchel i'w gwario yn 2024. Mae'r Cynllun yn cyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwaith ymarferol, a chynnal grantiau ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Gweithgorau mynediad, cadwraeth a threftadaeth wedi'i sefydlu, Grŵp Craidd yn cyfarfod yn chwarterol, ac e-fwletin misol cyhoeddus wedi'i sefydlu. Mae'r wefan ar fin cael ei lansio yn allanol. Mae gwerthusiad y cynllun yn digwydd drwy gyswllt rheolaidd rhwng y gwerthuswr penodedig, y tîm craidd, partneriaid a chyfranogwyr i nodi'r llwyddiannau/heriau wrth ymateb yn briodol.<br>**Cyllid:** Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau cyfreithiol rhwymol ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae rhai cyfraniadau cyllid cyfatebol yn parhau heb eu cadarnhau ac mae trafodaethau parhaus yn digwydd gydag arianwyr er mwyn lleihau'r risg ariannol. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. Mae effaith cyfradd chwyddiant ar ein prosiectau cyfalaf yn sylweddol, ac mae cyllideb chwyddiant mewn lle ar gyfer hyn. Mae'r gyllideb hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd drwy drafodaeth gyda'r Monitor Cronfa Dreftadaeth.<br>**Staff:** Mae un swydd yn wag ar hyn o bryd a rhagwelir bydd penodiad yn digwydd yn ystod mis Chwefror. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** |  | A<br><br>(Adolyg-wyd 15.11.23) | Rheolwr Prosiect |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | | |
| 8 | Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR). | Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | Mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau angenrheidiol erbyn hyn.<br><br>Mae'r cwrs wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg erbyn hyn. Datblygwyd y system fel ei fod yn atgoffa pawb pan mae hi yn amser ail eistedd y prawf. Gobeithio y bydd mwy o Aelodau a staff yn cwblhau'r cwrs eleni.<br><br>Parhau i adolygu'r hyfforddiant a sicrhau fod staff ac aelodau yn ei gymryd fel bo'r angen.<br><br>Mae cyrsiau newydd yn cael eu hychwanegu at y system ELMS a byddant yn mynd yn fyw ym mis Mawrth 2023. Bydd disgwyl i bawb sefyll y rhain cyn gynted â phosibl a bydd mynediad i rwydwaith neu e-bost yn cael ei ddileu os na fydd staff / aelodau yn cwblhau'r cyrsiau gorfodol newydd.<br><br>Cyrsiau newydd ELMS wedi ei gosod a mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau. Angen i'r aelodau gwblhau'r cyrsiau. | 3 | 2 | **6**<br>**Ambr** | → | A<br>(Adolygwyd 15.11.23) | Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt. | Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn. | 5 | 4 | **20**<br>**Coch** | Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31 Gorffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.<br><br>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn, gan gynnwys y Genhadaeth Fonitro diweddar (Tachwedd 2022) a'r 2il Adroddiad Canol Tymor (Hydref 2022), hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Adroddiad Cynnydd Diweddaraf wedi'i gyflwyno ym mis Medi 2023. Dim adroddiadau pellach i'w cyflwyno tan fis Mawrth 2025.<br><br>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn (tua £301k) oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol, a fydd angen cyfatebiaeth o 40% gan bartneriaid (tua £200k - £300k os bydd cyfanswm y cyllid yn cael ei dynnu i lawr o'r UE).<br><br>Dim diweddariad pellach o fis Hydref 2023. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | → | A<br>(Adolygwyd 15.11.23) | Rheolwr Prosiect |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddhaol. | Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | Mae materion staffio yn parhau i fod yn broblem enfawr i'r prosiect, gyda cholledion staff pellach, Emma Sweenie, (RSPB) yn gadael ym mis Tachwedd 2023. Hefyd arweiniodd absenoldebau tymor canolig i hir a brofwyd yn haf 2023 ymhlith 2 aelod o staff (Swyddog Prosiect a Swyddog Ymgysylltu) at lwyth gwaith cynyddol a straen ar staff presennol a gostyngiad mewn allbwn. Mae'r Swyddog Prosiect yn parhau i fod ar absenoldeb hirdymor o 9 Hydref 2023, heb unrhyw arwydd eto pryd y gallent ddychwelyd. Arweiniodd cynnydd mewn costau staff (chwyddiant, angen cyflogi staff ychwanegol) at yr angen i symud arian o gwmpas o fewn y prosiect i dalu'r costau.<br><br>Y tarfu a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu hyd eithaf ei allu am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | | C<br>(Adolygwyd 15.11.23) | Rheolwr Prosiect |
| 11 | Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod. | Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant. | 2 | 4 | **8**<br>**Ambr** | | A<br>(Adolygwyd 15.11.23) | Tîm Rheoli |
| 12 | Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant. | Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys:<br>1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol,<br>2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle,<br>3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff,<br>4. Cyfraddau cadw staff a salwch.<br><br>Ers yr adolygiad o delerau ac amodau staff bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith chwyddiant a chostau byw ar wytnwch staff a'u gallu i gadw a recriwtio. Cymeradwywyd adolygiad cyflog yn 2022. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o gyflwyno modelau gweithio hybrid ar gyfer staff swyddfa yn bennaf. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | A<br>(Adolygwyd 15.11.23) | Tîm Rheoli |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 13 | Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. | Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy. | 4 | 4 | **16**<br><br>**Coch** | Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol. Mae’r rhagolygon ar gyfer 2023/24 yn addawol, gyda nifer o grwpiau ac ysgolion eisoes wedi archebu ymweliadau.<br><br>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.<br><br>Mae’r Ysgwrn wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth ariannol allanol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau ac mae swyddogion yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd pellach ar gyfer uchafu’r incwm yma, e.e. drwy sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar gyfer Yr Ysgwrn. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>(Adolyg-wyd 15.11.23) | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadae-th Ddiwyllia-nnol |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth). | Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.<br><br>Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau. | 4 | 4 | **16**<br><br>**Coch** | Ar hyn o bryd yn recriwtio staff ar gyfer tymor 2024.<br><br>Er gwaethaf y rhagolygon economaidd llwyddodd Beddgelert a Betws y Coed i gwrdd â'u targedau incwm ar gyfer y gaeaf. Fodd bynnag, mae costau uwch yn golygu nad yw'r budd yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb gyffredinol. Wedi dweud hyn, mae rhagamcanion yn dangos y bydd y Canolfannau Ymwelwyr yn gorffen 2023/24 o fewn y gyllideb a osodwyd. | 4 | 2 | **8**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>(Adolyg-wyd 15.11.23) | Rheolwr Canolfan-nau Gwyboda - eth |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | O fis Awst 2023 ymlaen, mae'n ymddangos bod y gyllideb incwm ffioedd cynllunio (ffioedd cynllunio a chyngor cyn cais) yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb a osodwyd.<br><br>Mae'r gallu i liniaru unrhyw risgiau yn weddol gyfyngedig ond bydd yr Awdurdod yn:<br>- Parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am gynnydd mewn ffioedd cynllunio gydag Awdurdodau eraill (trwy Grŵp Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, POSW), fel y bo'n briodol;<br>- Bod yn ddarbodus o rhan gwariant - er mwyn ceisio gweithredu o fewn y gyllideb;<br>- Ceisio Cytundebau Perfformiad Cynllunio (CPAs) gyda datblygwyr mwy lle bo'n briodol - a fydd yn helpu i dalu am amser swyddogion. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | → | A<br><br>(Adolygw-yd 15.11.23) | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir |
| 16 | Sicrhau dyfodol tymor hir i Blas Tan y Bwlch. | Risg i enw da'r Awdurdod wrth reoli Plas Tan y Bwlch. Y Plas yn gorfod cau gyda staff yn colli eu bywoliaeth. Effaith andwyol ar yr economi lleol ac enw da'r Awdurdod yn dioddef. | 3 | 4 | **12**<br><br>**Ambr** | Gweler Risg 2 uchod. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, er bod incwm yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, mae diffyg sylweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef.<br><br>Mae Archwilio Cymru wedi argymell bod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod o fewn 12 mis. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi cael y dasg o lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch. Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur i'r Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac ystyriodd yr Awdurdod y mater yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, pan gytunodd i fabwysiadu dull deuol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y mater nesaf ym mis Medi 2024.<br><br>Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod nifer o broblemau gyda'r adeilad ei hun gan arwain at dreiddiad gormodol o leithder a cholli ystafelloedd gosod. Rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r sefyllfa ac mae gennym Arolwg o Gyflwr yr adeilad. Mae'r adroddiad hwn wedi ei drafod yn y Bwrdd ac rydym wedi gofyn am fanylion ar yr hyn sydd angen gwaith brys, gyda golwg ar ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cais am arian grant ar gyfer gweddill y gwaith. Gellir penderfynu wedyn os a sut i fuddsoddi ymhellach yn y Plas gyda'r arian eisoes i law. Yn y cyfamser cafwyd caniatâd adeilad rhestredig i wneud gwaith brys a gwaith y gellir ei wneud ar y cyd â gwaith arall a fydd yn lleddfu'r broblem o ddŵr yn mynd i mewn gan achosi treiddiad lleithder. | 3 | 4 | **12**<br><br>**Ambr** | → | A<br><br>(Adolygw-yd 15.11.23) | Cyf. Gwas. Corfforae-thol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 17 | Risg o gael ymosodiad Seibr | Colli data a mynediad i'r rhwydwaith | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | Camau yn eu lle i ddiogelu data. Angen gwneud profion treiddiad a gwe-rwydo i weld lle mae ein gwendidau.<br><br>Cyswllt cyfathrebu newydd yn ei le ac oherwydd cyfyngiadau cyllidebol bydd y profion yn cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol newydd.<br><br>Dim newid ar hyn o bryd – parhau i gadw safon diogelwch fel oedd gennym.<br><br>Linc newydd yn cael ei osod ym Mhlas Tan y Bwlch ym mis Tachwedd ac adolygiad o'r 'Firewall' yr un pryd. Rydym wedi uwchraddio'r *firmware* ar y *firewalls* ym mhencadlys.<br><br>Rydym yn uwchraddio cysylltiad Yr Ysgwrn yn bresennol. Mi fyddem yn symud ymlaen hefo'r profion '*penetration*' yn y flwyddyn gyllidol newydd. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>(Adolyg-wyd 15.11.23) | Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforae-thol |

| Sgorio'r Risg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |
| **Effaith** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |

| Sgôr Cyfunol | Risg Cyffredinol | |
|---|---|---|
| **1 – 4** | **Isel** | **Gwyrdd** |
| **6 – 14** | **Canolig** | **Ambr** |
| **15 – 25** | **Uchel** | **Coch** |

**EITEM RHIF 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD:** | 20 Mawrth, 2024 |
| **TEITL:** | **ADRODDIAD DIWEDDARU GRANTIAU ARIANNU ALLANOL** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Darparu diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol |

## 1. CEFNDIR:

1.1 Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2022 cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio cyllid grant allanol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae diweddariad wedi'i ddarparu bob 6 mis ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod.

1.2 Yn dilyn gohebiaeth â Swyddfa’r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr a’r angen i sicrhau bod aelodau’n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo prosiectau/rhaglenni, bu’r Aelodau’n trafod ac yn mabwysiadu’r broses fel y’i hatodwyd yn Atodiad 3. (Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2022).

1.3 Amlygodd Archwilio Cymru y pwysau y mae cefnogi darpariaeth trwy ffynonellau grant yn ei roi ar sefydliad. Mae mesurau wedi’u rhoi ar waith i fynd i’r afael â rhai o’r materion a nodwyd. Mae'r pecyn cymorth prosiect mabwysiedig (a gymeradwywyd gan Weithgor aelodau 22.05.19 ac a ddiwygiwyd ers 28.01.22 i gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau) yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion i asesu effaith unrhyw brosiect ar yr Awdurdod.

1.3 Ers yr adroddiad diwethaf mae rhai o'r prosiectau a restrwyd wedi'u cwblhau ac fe ystyriwyd prosiectau newydd. (Gweler Atodiad 1 am ddiweddariad)

## 2. TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY (TCLIC) CYLLID CYFALAF LLYWODRAETH CYMRU:

2.1 Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru raglen cyllid cyfalaf tair blynedd ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2025 - £800,000 yn 2022-23, £850,000 yn 2023-24 a 2024-25, sef cyfanswm y cyllid o hyd at £2,5000, 000 dros y cyfnod o dair blynedd.

2.2 Y themâu strategol a'r dyraniad grant ar gyfer cyllid TCLIC 2022-25 yw:
- Twristiaeth Gynaliadwy £897,000
- Cefnogi Cymunedau £480,000
- Datgarboneiddio £553,000
- Adfer Natur £570,000

## 2.3 Prosiectau a Gymeradwywyd gan TCLIC Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-25:

| Swyddog Arweiniol APCE<br><br>Pennaeth: | Thema LLC a<br>Phrosiectau Strategol APCE y cytunwyd arnynt | Ariannu 2022/25 £0'000 |
|---|---|---|
| Cadwraeth, Coedydd ac Amaethyddiaeth (RhO) | **ADFER NATUR:**<br>Arolygon coed a choetiroedd hynafol<br>Argymhellion yr arolwg cyflawni a chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt<br>Gwaith rhywogaethau a dargedir<br>Rheoli Llifogydd yn Naturiol | **570** |
| Eiddo<br>(ETJ) | **CYFLYMU DATGARBONEIDDIO:**<br>Llyn Tegid – paneli solar<br>Effeithlonrwydd ynni'r ystâd<br>Pwyntiau gwefru trydan | **553** |
| Partneriaethau (AJ)<br>Tref. Ddiwylliannol (NJ) | **CEFNOGI CYMUNEDAU CADARN A GWYRDD:**<br>Cronfa Gymunedol Eryri<br>Ardaloedd Cadwraeth – Effeithlonrwydd Ynni | **480** |
| Wardeiniaid a Mynediad<br>(AD)<br><br><br><br><br><br><br>Tref. Ddiwylliannol (NJ)<br>Partneriaethau (AJ) | **DARPARU TWRISTIAETH GYNALIADWY:**<br>Twristiaeth Gynaliadwy: Cynlluniau Lleol<br>Llwybr Cynwch<br>Astudiaeth Dichonoldeb: Porthmadog – Rhyd Ddu<br>Cylchdaith Cylchdaith Yr Wyddfa : Cwm Dyli<br>Taith Gerdded Gylchol Cylchdaith yr Wyddfa: Nant Peris<br>Llwybr y Mwynwyr<br>System Rheoli Mynediad/Llwybrau<br>Llyn Tegid/Cwm Rhwyddfor<br>Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Ardudwy<br>Mentrau Twristiaeth a Thrafnidiaeth Gynaliadwy | **897** |
| | **CYFANSWM** | **£2,500,000** |

## 2.4 Amrywiadau o fewn y flwyddyn i gyflenwi Prosiectau Darparu Twristiaeth Gynaliadwy:

**Amrywiadau o fewn y flwyddyn i gyflenwi Prosiectau Darparu Twristiaeth Gynaliadwy:** Oherwydd diffyg contractwyr cymwys a chytundeb gyda Cyngor Gwynedd, ni allai'r bwriad i gynnal rhan o'r astudiaethau dichonoldeb fynd rhagddynt yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r gwariant isod o ganlyniad i'r tanwariant.

| Prosiect | £'000 | £'000 | |
|---|---|---|---|
| **Systemau Rheoli Llwybrau Mynediad** | Gwein.:2.75<br>Gweithredu: 1.25<br>Gwaith: 23 | 27 | Archebwyd y system gyda arian grant TCLlC yn 2022/23 ond yr oedd costau'n fwy na'r gyllideb a ddyranwyd. Mae'r amrywiad yn 2023/24 ar gyfer balans cost y ddarpariaeth.<br>Cyfanswm o £27K |
| **Monitor Rhyngweithiol, Pen y Pass** | Gwein.: 1.5<br>Gweithredu : 1.5<br>Gwaith: 15 | 18 | Archebu monitor rhyngweithiol tebyg i'r rhai a ddarpeir yn Ogwen a Nant Peris. Bydd y monitor yn darparu gwybodaeth am lwybrau troed, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, amserlenni bysiau, adroddiadau tywydd a gwybodaeth diogelwch mynydd.<br>Cyfanswm o £18K |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cadair Idris Atgyweirio Llywbrau Troed** | Gwein.: 3.5<br>Gweithredu 7.0<br>Gwaith: 47.5 | 58 | Atgyweiriadau i lwybrau wedi'u gwneud ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r costau yn cynnwys prynu cerrig gosod, bagio cerrig, lifftiau hofrennydd ac atgyweirio waliau cyfagos.<br>Cyfanswm o £58K |
| **Wyddfa Fyw** | Gwein: 0.5<br>Gweithredu: 0.6<br>Gwaith: 4.6 | 5.5 | Uwchraddio offer ar gopa'r Wyddfa i gofnodi ac adrodd ar y tywydd o bell.<br>Cyfanswm o £5.5K |

## 3. CRYNODEB O BROSIECTAU/ RHAGLENNI GWEITHREDOL PRESENNOL:

3.1 Er budd aelodau newydd i'r Awdurdod mae'r tabl isod yn rhestru'r prosiectau/ rhaglenni gweithredol cyfredol, mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad 1.

| PROSIECT | AMCAN O'R DYDDIAD DARFOD | AMCAN WERTH £ |
|---|---|---|
| Treftadaeth Treflun Dolgellau (CTLC) | Mawrth 2024 | **1,498,718** |
| Carneddau (CTLC) | Mawrth 2026 | **4,170,776** |
| Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE) | Gorffennaf 2027 | **7,604,648** |
| Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru. Arienir y Swyddog Prosiect hyd at: | Ionawr 2025 | **227,000** |
| Cysylltedd y Carneddau, y Grid Cenedlaethol | 2025 | **200,000** |
| **CYFANSWM ARIAN GRANT ALLANOL PROSIECTAU** | | **£13,701,142** |

3.2 **Partneriaeth y Parc Cenedlaethol a Sefydliad y Parc Cenedlaethol:**
Mae cyfleoedd ariannu pellach ar raddfa lai yn cael eu darparu trwy ymdrechion naill ai Partneriaeth y Parc Cenedlaethol neu Sefydliad y Parc Cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r aelodau wrth iddynt gael eu cynnig i'r Awdurdod.

3.3 **Risgiau Posibl wrth Ymgymryd â Phrosiectau: Cynlluniau Rheoli Cynaliadwy (CRC):** Mae'r gyfres o brosiectau CRC a weinyddir gan yr Awdurdod (6) bellach wedi dod i ben. Ariannwyd y prosiectau hyn trwy hawlio ôl-weithredol ac mae setliad y cyfrif terfynol wedi bod yn broses hirfaith.

Ar ddiwedd 2023 roedd tua £550K wedi'i ddal yn ôl gan Lywodraeth Cymru (LC) yn eu hasesiad hawliad terfynol, a chafodd swm sylweddol ei briodoli i Lywodraeth Cymru yn cwestiynu taliadau partner mewn prosiectau er i hyn gael ei amlinellu a'i gymeradwyo yn y broses ymgeisio.

Ym mis Ionawr 2024, rhyddhawyd y rhan fwyaf o'r cyllid yn dilyn cymorth gan uwch swyddogion LIC i gwestiynu'r sefyllfa.

Mae mân gosbau (£10K) a briodolir i bob un o'r chwe phrosiect wedi'u derbyn ac mae'r Awdurdod yn eu derbyn. Roedd hyn ar raglen wariant cyffredinol o £4.9M.

4. **PROSIECTAU'R DYFODOL:**

4.1 Mae Aelodau ers 2020 wedi darparu cyfeiriad strategol i Swyddogion o ran blaenoriaethau'r Awdurdod wrth wneud cais am arian grant. Yn dilyn yr adroddiad diwethaf gofynnodd yr aelodau am i flaenoriaethau o'r fath gael eu grwpio fel penawdau thematig yn hytrach na rhestr o brosiectau a ffafrir. Mae hwn wedi'i ddiweddaru a gellir ei weld yn Atodiad 2.

4.2 Mae'r Aelodau'n ymwybodol o'r amserlenni sy'n ymwneud â rhai ceisiadau grant a dyna pam mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau yn flynyddol. Mae Atodiad 3 yn amlinellu'r siart llif sy'n dangos sut mae'r Awdurdod yn ystyried/cymeradwyo cynigion grant. Yn dilyn cyngor Archwilio Cymru, mae Aelodau wedi cadarnhau bod angen cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer cynigion grant yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn.
- Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cytûn.
- Unrhyw gynnig a gyfeirir at aelodau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr
- Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw terfyn ariannol y cytunwyd arno (£150,000)

Cynigion y dylid eu nodi yw:

- Rhandaliadau blynyddol mewn rhaglen aml-flwyddyn gymeradwy
- Unrhyw brosiect yn ystod y flwyddyn islaw trothwy y cytunwyd arno.

**5. ARGYMHELLION:**

**5.1 Nodi'r prosiectau arian cyfalaf 2022-2025**
**5.2 Nodi'r amrwymiad i brosiectau Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (2.4)**
**5.3 Nodi'r diweddariad ar brosiectau Cynlluniau Rheoli Cynaliadwy (3.3)**
**5.4 Nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1)**
**5.5 Cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2)**
**5.6 Nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3)**

.JO/APCE-APCE. PaA.
Mawrth 2024

**vTROSOLWG O BRIF BROSIECTAU PCE DIWEDDARIAD 6 MISOL: MEDI 2023 – MAWRTH 2024** **ATODIAD 1.**

## 1. PROSIECTAU CYFREDOL

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD MEDI 2023 - MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **PARTNERIAETH TIRWEDD Y CARNEDDAU**<br><br>Helpu i warchod treftadaeth o dan fygythiad y Carneddau | Ionawr 2020<br>⇩<br>~~30.09.2024~~<br>31.12.2025<br>⇩<br>Mae cyfnod estyngedig 15 mis wedi ei ganiatau gan Gronfa Treftadaeth hyd at Rhagfyr 2025. Gyda dyddiad cau swyddol y prosiect 03. 2026<br><br>**£4,170,776**<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | **Amserlen:** Mae'r Gronfa Dreftadaeth wedi cymeradwyo yn ffurfiol ein cynnig ar gyfer estyniad digost i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Mae'r estyniad hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cyllun a'r Swyddog Cymorth Cyllun tan 31/03/2026. Mae cynnydd da wedi ei wneud er gwaethaf Cofid-19. Mae ymarfer ail-broffilio o holl amserlenni gweithgaredd a phroffiliau gwariant prosiectau ar y gweill, a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes.<br><br>**Tynnu arian cyfatebol yn ôl â'r bwlch cyllido o ganlyniad i hynny** Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda chyllidwyr i sicrhau bod yr holl ofynion cyllido a dibenion cymeradwy yn cael eu bodloni.<br><br>**Diwddariad:** Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau sy'n rhwymo'r gyfraith ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. | **Cylchdaith y Carneddau:** Creu llwybr cerdded lefel isel 63km + arwyddion, gatiau ac ati<br><br>**Rhaglen Weithgaredd Ysgolion / Gwirfoddolwyr. Eiriolaeth dros yr Ucheldiroedd: Ymgysylltu:**<br><br>**Treftadaeth Ddiwylliannol â'r Amgylchedd Hanesyddol**<br><br>**Cadwraeth Adnoddau Naturiol:**<br><br>**Lleisiau'r Carneddau:** | **Mae'r rhaglen a'r gyllideb yn cael eu hadolygu'n barhaus ac mae gwaith y prosiect wedi cynyddu a chyflymu eleni.**<br><br>**Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn risg i gyllideb y Cynllun, gyda thua 25% o gyfraniad CNC i'r Cynllun yn parhaus i fod yn ansicr. Dim ond rhan o'r gwir fwlch yw'r swm hwn, gan fod y cyfraniad craidd yn tynnu % ychwanegol o arian o'r Gronfa Dreftadaeth tuag at elfennau hanfodol y Cynllun. Cynhelir cyfathrebu agored when CNC a swyddogion yr Awdurdod ac mae swyddogion yn ymdrechu i sicrhau bod yr ymrwymiad ariannol i'r Cynllun yn cael ei anrhydeddu. Disgwylir i ganlyniad y sefyllfa ddod yn gliriach erbyn diwedd mis Mai 2024. Mae'r Awdurdod wedi nod cyllid mewnol posible i gau'r bwlch, pe na bai cyllid CNC ar gael.**<br><br>**Mae materion staffio gan gynnwys salwch ac ymadawiad Swyddog Cefnogi'r Cynllun wedi bod yn heriol ond mae staff eraill y Cynllun wedi gweithio'n arbennig o dda fel tîm i sicrhau bod yr effaith ar y Cynllun yn gyfyngedig. Ailddechreuwyd staffio yn llawn o ganol mis Chwefror.**<br><br>**Mae lansiad y wefan wedi ei ohirio ond mae'r gwaith yn parhau.**<br><br>**Mae gwaith ymgysylltu ag ysgolion wedi cyflymu ac mae ymgysylliad cymunedol yn parhau trwy brosiectau a grantiau cymunedol.**<br><br>**Mae gwaith i ddatblygu adnoddau addysgol yn barhaus.**<br><br>**Yn ddiweddar comisiynwyd dehongli yn allanol a bydd comisiynau dehongli pellach yn cael eu cychwyn ar gyfer safleoedd penodol yn ystod y misoedd nesaf.**<br><br>**Adroddir i gyllidwyr mewn modd amserol a chyflwynir a derbynnir hawliadau am daliadau yn unol ag amserlen y prosiect. Mae dros hanner cyllideb y Cynllun bellach wedi'i wario ac mae nifer o eitemau mawr i'w talu amdanynt yn 2024/25. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio gyda Mentor y Cynllun i gadarnhau prosiectau etifeddiaeth a ariennir gan y Gronfa Dreftadaeth ac y gyflawnwyd ar ôl i'r Cynllun ddod i ben yn swyddogol ym mis Mawrth 2026.** |

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU LIFE**<br>Cynnyrch degawd o ymdrech i gaffael cyllid trwy raglen Natur a Bioamrywiaeth LIFE y Comisiwn Ewropeaidd i fynd i'r afael â bygythiad *Rhododendron ponticum* (Rp) ar goetiroedd derw brodorol ffin môr yr Iwerydd yng Nghymru. | ~~Awst 2018~~<br>⇩<br>~~Gorffennaf 2025~~<br><br>Gorffennaf 2027<br><br>**£7,604,648**<br>Gwariant hyd yma: £1.6m<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | ❖ Methu â llofnodi cytundebau 20 mlynedd<br>❖ Lefelau staffio a throsiant<br>❖ Y targedau yn fwy uchelgeisiol a heriol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Targedau ddim yn cael eu cyflawni<br><br>Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a'r cerrig milltir a nodwyd ac eithrio 100% yn arwyddo confensiynau 20 mlynedd (ac effeithiau canlyniadol ar gyflawni gwarediad o 100%), fel y trafodwyd yn adran 5 o'r adroddiad diweddaru llawn. | 1. Gwaredu *Rhododendron ponticum* o 5 ACA a'r ardal glustogi DPA = **7,961ha**<br><br>2. Ymgymryd â rheolaeth coetirol arall gan gynnwys **adfer 180ha** o goetir PAWS a chyflwyno pori cadwraeth ar safleoedd coetirol.<br><br>3. Creu Pecyn Cymorth Rheoli Rp sy'n cymeradwyo'r dull 3 cham o ddileu Rp, ac yn cynnal lleiafswm o 20 o ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio a 12 astudiaeth achos sy'n gysylltiedig ag amcanion y prosiect.<br><br>4. Ymgysylltu ag o leiaf 2,000 aelod o'r cyhoedd wedi'u lleoli mewn cymunedau targed yng Nghymru, gan gynnwys o leiaf 800 o ddisgyblion ysgol. (80 sesiwn ysgol) | **Erbyn hyn mae mae 8,897ha o dir o dan gytundebau rheoli Rp (amcangyfrif gan nad yw'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wedi'u diweddaru ers sawl mis oherwydd absenoldeb staff)**<br><br>**168.19 ha o waith adfer coetir PAWS wedi ei gwblhau neu ar waith**<br><br>**Wedi cyflwyno pori cadwraethol i 282ha o goetir (yn erbyn DPA o 227 ha).**<br><br>**211.2 ha o waith rheoli coetir "arall" wedi'i gwblhau (yn erbyn targed DPA o 130ha)**<br><br>➢ **Mae'r pecyn cymorth Rp wedi ei gyhoeddi**<br>➢ **Cynhaliwyd 17 o ddigwyddiadau arddangos, gan gyrraedd cynulleidfa o 297 o bobl**<br>➢ **Cynhyrchwyd 5 astudiaeth achos hyd yma**<br><br>➢ **Mae'r nifer o bobl wedi'u ymgysylltu â hwy yn sylweddol uwch na tharged y DPA o 2,100, gyda dros 7,910 wedi'u hymgysylltu**<br>➢ **Cwblhawyd 73 o sesiynau ysgol/coleg gan gyrraedd 1,563 o ddisgyblion a 195 o athrawon/staff . (Yn erbyn DPA o 800)**<br>➢ **Cynhaliwyd 5 sesiwn "hyfforddi'r hyfforddwyr" gan gyrraedd 36 o uniglion.** |

| DYDDIAD CWBLHAU'R PROSIECT : 31.03.2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT A Manylion** | **Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid** | **(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod** | **CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU** | **CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024** |
| **PROSIECT CTLC TREFTADAETH TREFWEDD DOLGELLAU**<br><br>Yn cyfuno amddiffyn a gwella trefwedd unigryw'r dref â gwneud defnydd llawn ohoni i ailgysylltu trigolion ac ymwelwyr heddiw â hanes y gymuned | 2016<br>⇩<br>~~31.12.2022~~<br>~~31.12.2023~~<br><br>31.03.2024<br><br>**£1,498,718**<br><br>Tynnu cyllid CTL i lawr bob chwarter. Sicrhawyd yr holl arian allanol<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | ❖ Effaith Covid-19<br>❖ Colli Rheolwr Prosiect neu staff cymorth cyn diwedd y prosiect<br>❖ Cost prosiectau yn uwch na'r disgwyl | Gwella cyflwr adeiladau hanesyddol yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau, trwy atgyweirio adeiladau hanesyddol, adfer nodweddion pensaernïol, ailddefnyddio arwynebedd llawr diangen a gwaith tir cyhoeddus yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau gan roi blaenoriaeth i adeiladau masnachol rhestredig. Mae'r prosiect yn dilyn yr egwyddorion a'r arfer gorau wrth warchod adeiladau hanesyddol a gwella eu heffeithlonrwydd ynni. | **Maw gwaith ar adeilad "Ty Newyddion" (yr hen Wilkins) yn mynd rhagddo, mae hyn yn destun balchder gan ei fod yn adeilad blaenoriaeth uchel.**<br><br>**Mae dyddiad cwblhau'r prosiect wedi'i ohirio tan 31 Mawrth 2024, oherwydd oedi yn Nhŷ Newyddion.**<br><br>**Mae gwaith ar 4 rhes Eldon bellach yn mynd rhagddo ac mae swyddogion yn gweithio ar ddau brosiect arall cyn diwedd cyfnod y prosiect.**<br><br>**Mae holl elfennau ymgysylltu cymunedol y prosiect wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT NOS PARTNERIAETH NOS AWYR DYWYLL GOGLEDD CYMRU**<br><br>Nod y prosiect yw lleihau effeithiau niweidiol llygredd golau ar iechyd pobl, bioamrywiaeth a'r noswedd trwy addysg, allgymorth cymunedol a thrwy weithredu ôl-ffitiadau goleuo. | Ionawr 2019<br>⇩<br>~~2022~~<br>2024<br><br>Partneriaid:<br>3 x AoDdGA : Pen Llŷn, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy<br><br>**£227,000+**<br><br>APCE: £40mil<br>Partneriaid: £87mil<br>Cyllid ychwanegol gan LlC: £100mil | ➢ Swyddog yn gadael y swydd: mae angen rhaglen fonitro flynyddol i gynnal statws yr Awyr Dywyll.<br><br>➢ Mae angen monitro llygredd golau yn barhaus gyda thystiolaeth am ddigwyddiadau ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r IDA. Gellir diddymu'r dynodiad os na chyflawnir hyn.<br><br>➢ Wrth i'r prosiect barhau i dyfu fe allai fynd yn rhy fawr i un swyddog prosiect ei reoli.<br><br>➢ Gallai'r SP fynd i ffwrdd yn sâl dros y tymor hir<br><br>➢ Wedi addasu swydd ddsigrifiad Swyddog Prosiect Nos gan olygu fod costau wedi codi ar gyfer y rol.<br><br>➢ Costau staffio uwch ar y swyddog craidd a arianir gan pertneriaeth 4 tirwedd dynodedig.<br><br>➢ Pryderon am chwyddiant ar effeithiau ar y pertneriaid. | Hyfforddi grŵp craidd o wirfoddolwyr i fonitro'r awyr dywyll o amgylch y Parc.<br><br>Cynnal ôl-ffitio ar safleoedd allweddol y Parc Cenedlaethol fel CC Betws Y Coed.<br><br>Cwblhau 3 cais awyd dywyll ar gyfer AOHNE<br><br>Cynnal 1 digwyddiad y mis ar-lein | ➢ **Mae Camau 1 a 2 o'r prosiect Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ac yn unol â'r amserlen.**<br><br>➢ **Cam 3 yw gweithredu'r gwaith arfaethedig. Mae'r goleuadau wedi'u harchebu gyda 3 phrosiect mawr wedi'u cytuno yn Eryri – Gwersyll Hyfforddi yr MOD, Capel Curig, Gwesty Llyn Tegid ac eiddo'r Urdd, Glan Llyn. Mae'r ddau eiddo ar Lyn Tegid wedi'u blaenoriaethau gan eu bod yn cael effaith sylweddol ar yr ardal ehangach ac ecoleg Llyn Tegid, sy'n safle RAMSAR o bwysigrwydd rhyngwladol. Gwyddom fod Golau Artiffisial yn y Nos (Artificial Light at Night, ALAN) yn cael effeithiau andwyol ar ymddygiad rhywogaethau Coregonid, megis Coregonus lavaretus, Gwyniad, a Llyn Tegid yn gynefin pwysig iddynt.**<br><br>➢ **Mae gwaith ôl-ffitio ar eiddo yn Y Bala, Ysbyty Ifan a Betws Garom wedi ei gwblhau. Mae'r Swyddog Prosiect yn gweithio gyda Adran Eiddo'r Awdurdod i edrych ar ôl-ffitio holl eiddo'r Awdurdod, gan gynnwys y maes parcio ym Metws y Coed.**<br><br>➢ **Mae gweithgor wedi ei ffurfio gyda CNC. Mae'r grŵp wedi cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru i ddrafftio dogfen cenedlaethol "Canllawiau Goleuo Da". Byddai hyn yn gam mawr ymlaen i ddiogelu awyr dywyll Cymru a byddai'r canllawiau'n berthnasol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru.**<br><br>➢ **Mae partneriaeth ymchwil newydd wedi ei ffurfio gyda Phrifysgol Bangor, sydd yn y broses o recriwtio myfyrwyr i ymgymryd â phrosiect ymchwil ar effeithiau llygredd golau mewn amgylcheddau arfordirol. Mae'n debygol y bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar Numenius Arquata, Gylfinir Ewrasiaidd. Mae gan Ymddiriedolaeth Aderegol Prydain ddiddordeb hefyd mewn dod yn bartneriaid prosiect i gysylltu'r prosiect â phrosiectau ehangach y Gylfinir yn yr ardal. Bydd yr ymchwil hwn o fudd mawr i'r prosiect gan nad oes unrhyw astudiaethau lleol i effeithiau llygredd golau ar fioamrywiaeth yng Nghymru**<br><br>➢ **Gofynnwyd i'r prosiect weithio ochr yn ochr â CNC o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Glynllifon. Mae'r ACA yn ymestyn dros ardal eang, o goleg Glynllifon am rai milltiroedd i fewn ffin y Parc Cenedlaethol rhwng Nantlle a Rhyd Ddu. Mae'r ardal wedi'i ddynodi'n safle o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd presenoldeb Ystlumod Pedol Lleiaf. Mae'r boblogaeth yn lleihau ac mae llygredd golau yn un o'r pwysau sy'n achosi i'w niferoedd leihau. Cwblhawyd ymweliadau safle ac arolygon ym mis rhagfyr 23. Mae'r prosiect bellach yn aros am adorddiadau i wneud argymhellion ac efallai edrych i sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith. Mae lle i brosiect ar raddfa fawr yn cwmpasu cymunedau Penygores, Talysarn, Nantlle a Llanllyfni ond byddai hyn yn dibynnu ar sichrau cefnogaeth a chyllid.**<br><br>➢ **Cynhaliwyd Wythnos Awyr Dywyll Cymru 2024 Chwefror 9-18 ac unwaith eto mae'n gydweithrediad rhwng pob un o'r 8 tirwedd dynodedig. Mae pob digwyddiad wedi'i archebu'n llawn, 3 achlysur yn Eryri.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **GALLUOGI ADNODDAU NATURIOL A LLES LLYWODRAETH CYMRU (GANLl / ENRaW)**<br><br>**a**<br><br>**PARTNERIAETH NATUR LEOL ERYRI (PNLE)**<br><br>**Mae'r ddau brosiect wedi'u cyfuno** | Ebrill 2023 – Mawrth 2025<br><br>Cydweithrediad rhwng APCE ac amryw o gyrff anllywodraethol amgylcheddol<br><br>Mae gan y prosiect ddyraniad o £300,000 cyfalaf a £72,000 Refeniw wedi ei sicrhau ar gyfer 2023/24 gyda'r un swm wedi ei ddyranu ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 | ❖ **Newid staff:** Yn dilyn cyfnod o drosiant uchel yn swydd y Swyddog Bioamrywiaeth, rydym wedi cyrraedd sefydlogrwydd gydag 1 Swyddog Prosiect a 2 Swyddog Bioamrywiaeth (technegol/ymgysylltu) wedi eu penodi<br><br>❖ **Cynhwysedd:** Oherwydd derbyn yr arian yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, mae gallu partneriaid i gyflawni prosiectau ar amser yn bryder. Rydym wedi contractio llwyth gwaith realistig, gan liniaru'r risg.<br><br>❖ **Oedi:** Mae tywydd gwael yn broblemus gan ei fod yn achosi oedi yn amserlenni gwaith contractwyr, gan effeithio ar amserlen y prosiect. | Mae rhaglen Lleoedd Lleol i Natur yn cefnogi'r blaeoriaethau strategol allweddol a nodir mewn deddfwriaeth ac yn helpu i gyflawni ymrwymiadau Bioamrywiaeth ac adferiad gwyrdd Llywodraeth Cymru. Nod y cynllun yw adfer a gwella asedau cyfalaf naturiol a darparu byd natur ar garreg eich drws lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Mae'r PNLE wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect ledled Cymru i greu dull cydweithredol o ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth yn sgil yr argyfwng bioamrywiaeth. | **Mae'r rhaglen Lleoedd Lleol i Natur, sydd wedi olynu cyllid ENRaW, yn brosiect 2 flynedd a ariennir gyda chyfanswm dyraniad cyfalaf o £600k. Mae Partneriaeth Natur Leol Eryri yn cyflawni'r prosiect "Eryri Gwyrdd", gyda'r nod o gynyddu mynediad i fyd natur gyda sawl partner, trwy sefydlu gerddi cymunedol, plannu perllannau a choed brodorol, clirio rhywogaethau ymledol a dolydd blodau gwyllt, tra'n gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd. Mae pob prosiect yn canolbwyntio ar ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol trwy blannu coed, gwneud gwestai chwilod a diwrnodau addysg Cregyn Gleision Perlog Dŵr Croyw er enghraifft.**<br><br>**Dyma rai o'n partneriaiad prosiect:**<br>❖ **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**<br>❖ **Ymddiriedolaeth Nature Gogledd Cymru**<br>❖ **Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru**<br>❖ **Y Dref Werdd**<br>❖ **Cynghorau Cymuned**<br>❖ **Timau Wardeiniaid APCE**<br><br>**Mae flwyddyn gyntaf y prosiect yn parhau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targerdau ar ôl 6 mis prysur o gydweithio gyda'n partneriaid. Disgwylir adroddiadau diwedd blwyddyn gan bartneriaid y prosiect ar ddiwedd mis Mawrth 2024, a chaiff allbynnau eu cadarnhau. Yn dilyn recriwtio 2 Swyddog Bioamrywiaeth yn llwyddiannus, mae gwaith wedi dechrau ar ysgrifennu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri. Mae mwy o ffocws ar ymgysylltu wedi'i gyflwyno i hyrwyddo gwaith yr Adran, datblygu Partneriaeth Natur Lleol Eryri, a meithrin perthynas â chymunedau ar gyfer gwella bioamrwyiaeth.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd<br>Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle)<br>Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **MENTER GWELLA TIRWEDD Y GRID CENEDLAETHOL** | Chwefror 2023<br>⇩<br><br>£200K | Dyddiad cychwyn wedi'i ohirio.<br>Arweiniodd yr oedi at golli un tymor rheoli llystyfiant. Gallai hyn roi pwysau ar dorri digon o ardaloedd o fewn yr amser penodedig.<br>I liniaru'r risg – Mae cyfran dda o'r gwaith bellach o dan gontractau ac yn mynd rhagddo'n dda.<br><br>Mae'r dyfynbrisiau rydym yn eu derbyn am waith ar y prosiect hwn yn sylweddol uwch na'r hyn a gyllidebwyd.<br>I liniaru'r risg - mae cais wedi ei wneud am godiad ariannol.<br><br>Agwedd arwyddocaol o'r prosiect hwn yw adeiladu pont dros Anafon.<br>Mae'r agwedd hon yn annhebygol o ddigwydd gan fod cyngor cymuned wedi ei wrthwynebu. Mae opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan arweinwyr prosiect.<br><br>Mae risg y gallai buddsoddi i reoli eithin a rhedyn fod am ddim os nad oes newid i'r pori ar y safle. Os bydd y pori yn parhau fel y mae, mae perygl y bydd eithin yn dychwelyd ymhen 10-15 mlynedd.<br>I liniarau – Trafodaethau gyda chymdeithas pori Aber a ChNC er mwyn denu Merlod y Carneddau i bori dros y gaeaf ar y safle. | 15134m gwelliannau mynediad<br><br>1 pont newydd<br><br>Gwaredu 214ha o redyn ac eithin<br><br>1070 atgyweirio terfyn | **Mae'r prosiect hwn yn cael ei gyflawni gan bartneriaeth (CNC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac PhCE. Mae pob sefydliad wedi dechrau'n gadarnhaol ar bob un o'u hagweddau eu hunain. Mae'r rhan mwyaf drud o Foel Wnion i Drosgl yn cael ei gyflawni gan yr YG ac mae cynnydd da yn cael ei wneud. Mae pob agwedd o dan gyfrifoldeb PCE wedi'u cwblhau.**<br><br>**Mae'r targed i osod un bont newydd dros Anafon dan fygythiad. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal i benderfynu lleoliad newydd.**<br><br>**Rhennir gwaith gwaredu rhedyn ac eithin yn ddau gategori. Torri mecanyddol sy'n digwydd gyda thractor a ffust. Gall hyn arwain i gynnydd cyflym ar ardaloedd mawr mewn cyfnod byr o amser. Neu thorri â llaw sy'n digwydd ar safleoedd archeolegol sensitif sy'n cymryd llawer o amser a gofal. Mae'r ddau sefydliad dan sylw wedi targedu torri â llaw yn bennaf hyd yn hyn gan ei fod yn cymryd y rhan fwyaf o'r amser a'r gost. Mae 9/10 o'r safleoedd wedi'u torri â llaw. Nod y tymor toriad nesaf yw canolbwyntio ar dorri mecanyddol.**<br><br><br>**Nid yw gwaith atgyweirio ffiniau wedi dechrau eto.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol**<br><br>**MIND THE GAP** | 2023 – 2026<br><br>£200k o gyfraniad gan MGT y Grid Cenedlaethol, mae'r holl gostau eraill (lleiafswm 25%) mewn nwyddau neu arian parod gan bartneriaid.<br><br>Ym mis Ebrill 2023, gwnaethom gais llwyddiannus gan dderbyn taliad ychwanegol o £41,509 i gyfrannu at allbynnau disgwyledig y dyfarniad gwreiddiol | **Dyddiad cychwyn wedi ei oedi:**<br><br>**Covid 19** – gweler prosiectau MGT uchod<br><br>**Colli Swyddog Prosiect:** gwaith wedi'i wasgaru ymhlith partneriaid. Hyblygrwydd o fewn yr Adran CCA i gwmpasu SP<br><br>**Oedi gyda chymeradwyaeth OFGEM sy'n golygu y gall rhanddeiliaid eraill geisio ffynonellau ariannu eraill**<br>– cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid i gadw'r rhai sydd â diddordeb yn frwdfrydig | 19.62 ha o reoli Rhododendron<br><br>310m o adfer llwyni<br><br>1,068m² o waith adfer waliau sych<br><br>1 adfer / ail adeilad<br><br>2,090 m o waith ffensio i reoli cynefinoedd<br><br>6,800 o goed llydanddail wedi'u plannu<br>160 o goed o fath parcdir wedi'u plannu | **Ar ôl oedi sylweddol gan y Grid Cenedlaethol, mae cymeradwyaeth derfynol wedi'i rhoi ynghyd â chodiad cyllid i adlewyrchu cynnydd mewn costau chwyddiant, mae'r holl waith bellach wedi'i gontractio a disgwylir iddo fod ar y gweill.**<br><br>**Mae'r holl waith wedi'i gontractio am y tair blynedd nesaf, ac mae gwaith blwyddyn 1 yn dod i ben. Bydd y swyddog prosiect yn monitro'r gwaith cyfalaf ym mis Mawrth. Adroddir ar allbynnau Blwyddyn 1 ar ôl cwblhau'r monitro. Wedi profi peth oedi oherwydd contractwyr a'r tywydd ar Ystâd y Wern a Llenyrch (Yr Ymddiriedolaeth Coed)** |

| PROSIECT | DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD CYFANSWM CYLLID | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **(Rhan o Raglen dreigl) Menter Gwella Tirwedd y Grid Genedlaethol Prosiect Rhif 4**<br><br>**CYSYLLTEDD Y CARNEDDAU** | 2021 – 2025<br><br>£200k | **Risg:** Coed Gorddinog, Llanfairfechan – Tirfeiddianwr wedi datgan fod dim diddordeb ganddo i reoli'r Rhododendron sydd ganddo yn Gorddinog hall. Hwn yn rhan pwysig iawn i gyrraedd y targed yma felly risg o ddim llwyddo – trafodaethau yn parhau gyda'r tirfeiddianwr ac archwilion i ddarganfod safleoedd newydd i gymeryd lle.<br><br>**Risg:** Y gwaith yn costio mwy na chafodd i rhagweld yn y cais felly potensial o or-wario yma. | Adferiad Gwrychoedd 9,000m<br><br>5,927 Plannu Coed (Coridorau Ffridd a Glan y Môr)<br><br>Creu Coetir 2ha<br><br>Tynnu Rhododendron 26ha<br><br>Creu Dolydd 3.5ha | **Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais am ychwanegiad o £43,320 i gwrdd â chostau cynyddol. Bydd y codiad hwn yn cael ei ddefnyddio i blannu mwy o wrychoedd a choed.**<br><br>**Plannwyd 4154m o wrychoedd. 1266m ychwanegol i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024.**<br><br>**230m o wrych wedi ei osod, gyda 333m ychwanegol i'w osod cyn diwedd mis Mawrth.**<br><br>**Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, bydd 5,983 o wrychoedd wedi cael eu rheoli.**<br><br>**Oherwydd y tywydd garw y gaeaf hwn mae llawer o dirfeddianwyr wedi dweud na fyddant yn gallu cwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen a roddwyd (15/03/2024). Gan mai 31/03/2025 yw dyddiad gorffen y prosiect yr ydym wedi caniatau estyniadau i'r tirfeddianwyr hyn tan fis Tachwedd 2024.**<br><br>**Mae'r 9000m o waith adfer gwrychoedd ar y gweill a bydd yn cael ei gyflawni.**<br><br>**Mae'r targed i blannu 5927 o goed ar ffriddoedd a choridorau glan yr afon wedii ragori. Mae llawer o hyn wedi digwydd yn Anafon ac Afon Gam. Mae ardaloedd eraill yn cynnwys tir amaeth, ffridd a sgil-dir anghynhyrchiol.**<br><br>**Rhagorwyd ar 2ha o blannu coetir.**<br><br>**Mae perchennog tir Neuadd Gorddinog wedi methu ag ymateb i unrhyw un o'n hymdrechion i gysylltu â nhw. Ochr yn ochr â grŵp craidd prosiect y Carneddau, penderfynwyd tynnu'r safle hwn o brosiect y Carneddau. Ni chanfu arolygon diweddarach unrhyw Rododendron yn ardal y Carneddau i gael gwared ar yr hyn a oedd yn cyfateb i friff y prosiect. Felly, gyda chymeradwyaeth y Grid Cenedlaethol bydd y gwaith clirio rododendron yn digwydd yng Nghoed Cymerau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y prosiect.**<br><br>**Mae anhawster cael mwy o safleoedd dolydd gwair. Bydd gwaith pellach i gyrraedd y targed hwn yn digwydd y gwanwyn yma.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd<br>Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle)<br>Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD MEDI 2023 – MAWRTH 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **RHAGLEN WEITHREDU GENEDLAETHOL AR FAWNDIROEDD** | 2020 – 2025<br>Arian grant dros sawl mlynedd drwy Gyllid wedi'i Ddyranu'n Strategol (SAF):<br><br>2020-21: £383,793<br>2021-22: £253,835<br>2022-23: £301,648<br>2023-25: Hyd at £250,000 pob blwyddyn<br><br>**Cyfanswm = £1,001,274** | Amharodrwydd tirfeddianwyr i adfer mawn oherwydd ansicrwydd ynghylch FFCS newydd.<br><br>Cyfyngiadau cynyddol gan CNC ar ein harferion gwaith ee atal ail-wlychu taliadau, atal waith ar rai safleoedd, newidiadau anniswgyl i'r broses gymeradwyo yn achosi oedi sylweddol.<br><br>Oedi taliadau oherwydd gofynion data ychwanegol na chofodd eu penny ar y dechrau. | Dim targedau penodol, ond yn anelu at adnabod, arolygu ac adfer mawn o fewn y PC (gyda rhai eithriadau tu allan i'r PC blynyddoed cynharach) | **Wedi gweithio ar dros 6000ha o fawndiroedd:**<br>**2020-21: 1124ha**<br>**2021-22: 1815ha**<br>**2022-23: 3086ha**<br>**2023-24: 1612ha (hyd yn hyn)**<br><br>**Hefyd arolygon wedi'u cwblhau a gwirio tir dros 21 o safloedd (yn cwmpasu 1124ha), arolwg rhannol o 6 safle pellach a gwirio tir 22 safle arall.** |
| **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd**<br><br>**YMYLON ERYRI** | 2022 – 2025<br><br>Cyllid grant drwy Raglen Weithredu Cenedlaethol Mawndiroedd (NPAP) Datblygiad (Dat.) a Gweithredu (Gweith.)<br>2022-23: £29,927 (Dat.)<br>2023-24: £30,000 (Dat.)<br>2023-25: Up to £250,000 (Gweith.)<br><br>**Cyfanswm = £309,927**<br><br>*2024-25: £30,000 (Gweith.) – yn aros cadarnhad o lwyddiant cais am grant* | Nature tymor byr y grantiau. Gorfod gwneud cais bob blwyddyn – risg o beidio â bod yn llwyddiannus a cholli staff.<br><br>Ansicr o'r rhaglen ar ôl 2025.<br><br>Anhawster gweithio gyda thirfeddianwyr y tu allani'r PC. Unsure of programme after 2025.<br><br>Amharodrwydd tirfeddianwyr i adfer mawn gydag ansicrwydd ynghylch yr FfCS newydd. | Dim targedau penodol, anelu at adnabod, arolygu ac adfer mawr tu allan i ffiniau'r PC | **Mae'r Grant Datblygu wedi nodi 84 o safleoedd posibl i weithio arnynt.**<br><br>**2022-23: Gwirio'r tir 2931 ha dros 28 o safloedd a chwblhau arolygon ar 7 safle (662ha).**<br><br>**2023-24 (hyd yn hyn): Gwirio'r tir 935ha dros 8 safle a chwblhau arolygon ar 8 safle (742ha).**<br><br>**Mae'r Grant Cyflawni ar hyn o bryd yn cyflawni gwaith adfer mawndir ar y Gylchedd, gan adfer 5 safle ar draws cefnen a hwyluso gwaith pellach a gweithio mewn partneriaeth o fewn ffin y PC.** |

**ATODIAD 2**

## BLAENORIAETHAU APCE AR GYFER CYNIGION CYFALAF A REFENIW:

Mae’r Aelodau’n ystyried blaenoriaethau ceisiadau grant yr Awdurdod yn flynyddol. Mewn blynyddoedd blaenorol, nodwyd y rhain fel prosiectau penodol. Yn unol â chais yr aelodau, mae'r rhain bellach o dan benawdau thematig strategol y gellir eu cysylltu â'n dogfennau strategol a statudol.

1. Adferiad Natur,
2. Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd,
3. Rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau pwysau pobl ar ein hamgylchedd a'n cymunedau,
5. Datblygu cyfleoedd hamdden newydd/gwell (cerdded/beicio/marchogaeth),
6. Datblygu cyfleoedd lles,
7. Cynigion datgarboneiddio – mewnol ac allanol i'r Awdurdod,
8. Hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg gyda’n defnyddwyr/cwsmeriaid,
9. Datblygu economi twristiaeth gynaliadwy,
10. Cefnogi pobl ifanc,
11. Rheolaeth a dealltwriaeth o'n Rhinweddau Arbennig.

**ATODIAD 3.**

## CYLLID ALLANOL : DATBLYGU A CHYMERADWYO RHAGLENNI / PROSIECTAU

- CYNLLUN RHEOLAETH Y PARC CENEDLAETHOL
- DATGANIAD LLESIANT
- CYNLLUN DATBLYGU ERYRI
- BLAENORIAETHAU LLYWDORAETH CYMRU A GWEINIDOGAETHOL

↓

BLAENORIAETHAU AELODAU/AWDURDOD ar gyfer PROSIECTAU A RHAGLENNI (CYLLID ALLANOL)

↓

AELODAU'N ADOLYGU BLAENORIAETHAU A MONITRO CYNNYDD

↓

DATBLYGU PROSIECT / RHAGLEN (Swyddog)

- Cyfleoedd Ariannu
- Partneriaethau
- Cydweddu â Dibenion y Parc Cenedlaethol
- Cydweddu â Blaenoriaethau'r Awdurdod
- Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau
  (Amserlenni, Costau, Gallu i Gyflawni, Cynhwysedd, Strategaeth Ymadael, Risgiau i Enw Da ac ati)

↓

Y BWRIAD: Tim Rheoli / Cadeirydd

↓

Y CYNNIG: Derbyn / Gwrthod (PW / Cadeirydd)

↓

HYSBYSU AELODAU (Awdurdod / PaA) → (yn ôl i: AELODAU'N ADOLYGU BLAENORIAETHAU A MONITRO CYNNYDD)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
JO/Cymeradwyo Prosiectau Cyllid Allanol

**EITEM RHIF 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2023-24<br>Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Adroddiad cynnydd y Trydydd Chwarter (Hydref - Rhagfyr) 2023 a'r Pedwerydd Chwarter (Ionawr – Mawrth 2024) os yw'r wybodaeth ar gael |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y Trydydd Chwarter o 2023/24 a'r Phedwerydd chwarter os yw'r wybodaeth ar gael i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2023-24: Adroddiad Cynnydd ar y Trydydd Chwarter yn 2023 a'r Pedwerydd Chwarter, os yw'r wybodaeth ar gael.

# AMCANION LLESIANT 2023-24 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Chwarter 3 : Hydref - Rhagfyr, 2023**

**a Chwarter 4 : Ionawr – Mawrth os ar gael**

**Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)**

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.1 | Gwyrdd | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol.**<br>**Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2022.** | Parhaus Adroddiad nesaf erbyn Meh.Gorff 2023 | Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Llesiant |
| | Ch. 1-3 | **Adroddiad wedi ei chynyrchu ac ar gael ar safle we'r Parc Cenedlaethol:**<br>https://Awdurdod.eryri.llyw.cymru/gwybodaeth/visitor-monitoring-figures/<br>**Bydd Rheolwr Mynediad a Llesiant yn cyflwyno'r adroddiad i Weithgor Aelodau mis Tachwedd.**<br>**Wedi'i gwblhau am 2023** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.2** | | **Ymgyrch Negeseuon Tymor 2023 i godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon - ei weithredu ac adrodd ar y canlyniadau/ cyrhaeddiad.** | Rhagfyr 2023 | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Partner.<br>Swyddog Twristiaeth Cynaliadwy |
| 1.2.1 | | Mae APCE wedi cynnal ymgyrch ymwelwyr ar y cyd i fynd i'r afael â heriau rheoli ymwelwyr ac wedi annog pobl i ymweld yn gynaliadwy | | |
| a. | | Gweithredu Ymgyrch Eryri Ni 23 – Bydd Llysgenhadon Aur yn gymwys ar gyfer graffeg cyfryngau cymdeithasol mewn partneriaeth ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd Llysgenhadon Aur yn gallu cofrestru yn erbyn dyddiad y cytunwyd arno a byddant yn derbyn cyfres o deils wedi'u teilwra yn cynnwys logo eu cwmni i hyrwyddo negeseuon allweddol y strategaeth. Byddant hefyd yn derbyn pecyn hyrwyddo ar gyfer eu busnes. | | |
| | Ch. 1-2 | Cafwyd adborth bositif ar ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar sianeli cyfryngau cymdeithasol canolog yr Awdurdod, amlygwyd y negeseuon gan ddefnyddio 40 o Lysgenhadon Eryri fel 'Llysgenhadon Digidol' i rannu ein negeseuon ymhellach. Hefyd, cyhoeddwyd erthygl â thâl ar '7 ffordd o ymweld ag Eryri'n gynaliadwy' gan North Wales Live. | | |
| | **Ch. 3.** | **Cynhaliwyd Gweithdy Adolygu Tymor Ymwelwyr ym mis Rhagfyr 2024 gan yr Adrannau Wardeiniaid, Eiddo, Cyfathrebu a Phartneriaethau.** | | |
| b. | | Datblygu atebion i faterion cartrefi modur gan gynnwys mesurau ymgysylltu a chyfathrebu | | |
| | **Ch. 1 - 3** | **Cynhyrchwyd tudalen bwrpasol ar wefan Eryri i annog ymweliadau cyfrifol gan berchnogion cartrefi modur: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/cynllunio-eich-ymweliad/faniau-cysgu-a-cartrefi-modur/**<br><br>**Cynhyrchwyd fersiwn estynedig a gwell o daflen Fan Gwersylla Eryri yn 2023 sydd bellach wedi ehangu'r rhestr o feysydd gwersylla swyddogol ar y daflen, ac mae peiriannau dosbarthu wedi'u gosod mewn mwy o ardaloedd lle gall y Gwasanaeth Wardeniaid gyfeirio ymwelwyr yn hawdd.**<br><br>**Wedi'i gwblhau ar gyfer tymor ymwelwyr 2023** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.2 | | Mae o leiaf dwy deithlen wedi'u datblygu ar ein gwefan sy'n canolbwyntio ar rinweddau arbennig gan gynnwys diwylliant Cymru a thwristiaeth gynaliadwy | Rhag. 2023 | Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1- 3** | **Cyhoeddwyd 7 arweinlyfr gan gynnwys "5 taith gerdded yn Eryri wedi'u trwytho mewn Chwedloniaeth" a "Sut i Ymweld ag Eryri heb gar".** **Wedi'i gwblhau** | | |
| **AC 1.3** | | **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghanolfan Gwybodaeth Betws y Coed trwy uwchraddio'r cyfleusterau i ymwelwyr** | Disgwylir gorffen erbyn | |
| | | ➢ Canolfan Wybodaeth Betws y Coed: y blwch tywod a'r arddangosfa rhithwirionedd wedi agor i'r cyhoedd | Ebrill 2023 | Rh. Twristiaeth Cynaliadwy |
| | | ➢ Gwelliannau i arwyddion Canolfan Groeso Betws y Coed i'w cwblhau | Hydref 2023 | |
| | | ➢ Gweithio gyda CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i roi cam 2 o welliannau dehongli Ogwen ar waith | Mawrth 2024 | Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1- 2 | Mae arddangosfa Betws y coed wedi ei chwblhau a'i hagor ond bydd rhai agweddau o'r gwaith yn cael eu newid dros y Gaeaf.<br>Dehongli Ogwen ar y cwrs i'w gwblhau erbyn Mawrth 2024. | | |
| | **Ch. 3** | ➢ **Gwaith dehongli yng Nhganolfan Ymwelwyr Betws y Coed wedi'i gwblhau**<br>➢ **Gwaith ar gyfer mynedfa newydd ac arwyddion wedi'u hamserlennu ar gyfer Chwefror/Mawrth 2024.**<br>➢ **Arwyddion i'w cwblhau erbyn diwedd Chwarter 2. 2024**<br>➢ **Gwaith Cam 2 yn Ogwen i'w gwblhau yn chwarter 4.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.4** | | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl** | Parhaus | Pen. Wardeinio a Mynediad (WaM) |
| | Ch. 1- 2 | Gwaith mynediad ar draws y Parc yn parhau gyda cynnal a chadw, gwelliannau ac datblygu teithiau sy'n cael eu hyrwyddo.<br>Wedi apwyntio Uwch Warden – Mynediad fydd yn cydlynnu prosiectau canolig i mawr. Gwaith o gasglu, blaenoriaethu, a rhaglennu yn ailgychwyn gyda cyfarod blaenoriaethu gwaith ym mis Tachwedd. | | |
| | Ch. 3 | **Mae'r gwaith yn parhau – yn y broses o dderbyn meddalwedd newydd i reoli'r rhwydwaith mynediad. Bydd y meddalwedd yn ein galluogi i greu adroddiadau, asesu'r gwaith a dilyn i fyny gydag arolygiaeth.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.5** | | **Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri** | Chwefror 2024 | Pen. WaM |
| | **Ch. 1 - 3** | **Fydd y gwaith yma'n cael ei flaenoriaethu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau yn 2024.** | | |
| **AC 1.6** | | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri** | Chwefror 2024 | Pen. WaM |
| | **Ch. 1- 3** | **Fydd y gwaith yma'n cael ei flaenoriaethu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau yn 2024.** | | |
| | Ch. 3 | | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 1.7** | | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn** | Parhaus | Pen. WaM |
| | Ch. 1 - 2 | Gwaith yma'n parhau ac yn cael ei flaenoriaethu yn rhaglenni gwaith Wardeniaid Ardal. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae'r gwaith yn parhau. Bydd meddalwedd newydd yn cynorthwyo gyda rheoli ac adrodd ar y gwaith.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen — Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024 — Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i’r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.8** | **Ch. 1 - 4** | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol**<br><br>**Gwaith yma’n parhau ac yn cael eu cynllunio yn cynlluniau ardal Wardeniaid** | Parhaus | Pen. WaM |
| **AC 1.9** | **Ch. 1- 4** | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid**<br><br>**Mae pob warden efo cynllun ardal sy’n cael ei arolygu gyda’r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae’r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw'r gwaith prosiectau natur arian grant Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (SLSP) efo’r Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. Mae’r gwaith yn barhaus.** | Parhaus | Pen. WaM |
| **AC 1.10** | Ch. 1 - 2<br><br>**Ch. 3 - 4** | **Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig**<br><br>Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno i Weithgor yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2023. Mae tudalen benodol ar ein gwefan yn ymdrin â phrif ymgyrchoedd a digwyddiadau'r prosiect: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/yr-wyddfa/yr-wyddfa-ddi-blastig<br><br>**Adroddiad blynyddol wedi’i gyflwyno i’r Gweithgor ym mis rhagfyr 2023. Mae blaenoriaethau ar gyfer gweddill y prosiect – hyd at Hydref 2024 – wedi eu gosod drwy’r system gwerthuso blynyddol.** | Parhaus | Pen. Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.1** | Blynyddol | **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLI cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.** | **Adroddiad blynyddol** | *Pen. RhDaCh<br>* Pen. PC |
| **AC 2.2** | | **Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Ebrill 2022) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Carbon Isel yr Ystâd Gyhoeddus** | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau o Ebrill 2024 + ymlaen | Pennaeth Eiddo |
| | Ch. 1- 2 | Mae'r gwaith yn parhau – mae nifer o brosiectau ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i Ben y Pass, Ysgwrn a'r Pencadlys yn cael eu cwblhau trwy ffrwd ariannu prosiect SLSP. Hyd yma mae mesurau effeithlonrwydd ynni mewn goleuadau LED, atal drafftiau a gwell perfformiad thermol adeiladau wedi arwain at arbediad o 223,000 KWH o ynni y flwyddyn, sy'n werth tua £100,000 o arbed ynni i'r Awdurdod. | | |
| | **Ch. 3** | **Prosiectau wedi'u tendro a'u dyfarnu ar gyfer Pen y Pass a chaniatâd cynllunio wedi'u sicrhau ar gyfer drysau a ffenestri gwydr dwbl yng Nghanolfan Groeso Aberdyfi (amserlen waith 24/25). Wedi gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer gwaith ar y Byngalo, Yr Ysgwrn. Cwblhawyd gwelliannau thermol a gwrthsain i ystafelloedd cyfarfod y Pencadlys.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC) *Pennaeth Polisi Cynllunio (Pen. PC)

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.3** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr astudiaeth carbon i APCE fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030** | Mabwysiadu erbyn 2024 Parhaus 2030 | Prif Weithredwr (PW) Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 2 | Cafodd adroddiad Aquater ei hstyried gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Carbon ac argymhellwyd fod y Strategaeth Rheoli Asedau yn cynnwys y cyfrif carbon ar gyfer pob ased a reolir. Mae Rheolau Sefydlog diwygiedig yn darparu ar gyfer caffael sy'n cynnwys ôl troed carbon nwyddau os dymunir. Mae caffael ehangach mewn perthynas â nwyddau a charbon yn cael ei drafod gyda'n dau Awdurdod Lleol cyfagos. | | |
| | Ch. 3 | **Mae Pennaeth Eiddo yn y broses o integreiddio cyfrifo carbon i strategaeth Rheoli Asedau'r Awdurdod. Defnyddiwyd arian grant LIC Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy i fynd i'r afael â rhai o argymhellion adroddiad Aquatera.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 2.4** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu yn dangos sut y gall ardal Eryri symud tuag at fod yn garbon niwtral** | Rhagfyr 2023 | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir (CaRhT) |
| | **Ch. 1 - 3** | **Mae Grŵp Aelodau ar Garbon wedi trafod 3 phrif faes, yn dilyn asesiad o'r 2 adroddiad a luniwyd gan ymgynghorwyr (Aquaterra a Small World Consulting).**<br>**Bydd y cyntaf yn berthnasol i ystâd a phrosesau mewnol a chaffael yr Awdurdod, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Aquaterra. Bydd hyn yn cael ei arwain gan y Pennaeth Eiddo lle bydd polisïau carbon isel yn cael eu hintegreiddio i brosesau a gweithdrefnau mewnol yr Awdurdod.**<br>**Yr ail faes (gan adeiladu'n rhannol ar waith Small World Consulting) fydd sicrhau bod dau gynllun statudol y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu'n llawn at nodau di-garbon yr Awdurdod. Mae'n bwysig bod y rhain yn rhan o'r strategaeth ar gyfer y ddau gynllun hyn. Caiff y ddau dîm eu hysbysu'n llawn am arwyddocâd y mater hwn a'r angen i'w integreiddio ar ddechrau'r broses.**<br>**Y trydydd maes fydd arweinyddiaeth yn y maes hwn. Er na all yr Awdurdod reoli llawer o'r materion sy'n effeithio ar yr agenda garbon yn uniongyrchol, gallwn ymgymryd â rôl arwain ac eiriolaeth gref. Yn hyn o beth, bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno papur ar y 'Ras i Sero', ac os caiff ei fabwysiadu, bydd yn rhoi trefn gliriach ar gyfer datblygu cynllun gweithredu.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ch. 4 | **Bydd y 3 maes hyn nawr yn cael blaenoriaeth i'r Awdurdod wrth fynd i'r afael â'r agenda di-garbon, a bydd yr Aelodau'n cael eu hysbysu'n llawn am gynnydd yn hyn o beth.**<br>**Mae strategaeth mawndiroedd wedi'i hadolygu ac mae strategaeth coetir yn cael ei datblygu.** | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.5** | | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol** | Parhaus | PW<br>Arweinydd Strategol |
| | Ch. 1- 2 | Mae swydd Arweinydd Strategol ar gyfer Adfer Natur a Chadw Carbon wedi'i lleoli yn Eryri. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac mae canfyddiadau/strategaeth amlinellol i'w hystyried yn gynnar yn 2024. Nodwyd saith amcan a drafftiwyd rhaglen waith i'w cyflawni. Dau brif ganlyniad sy'n deillio o'r rhaglen waith yw Strategaeth Galluogi wedi'i hanelu at LIC a'r cyrff rheoli Tirweddau Dynodedig a darn prawf ar y rhyngwyneb rhwng y cyrff rheoli DL a'r rheolwyr tir sy'n gweithredu oddi mewn iddynt, a elwir ar hyn o bryd yn 'Llyfr Bach o Opsiynau '. Mae mecanweithiau ariannu a sgiliau recriwtio a chadw yn destun holiadur a anfonwyd at staff.<br>Mae fframwaith strategol yn cael ei ddrafftio fel sail i gynlluniau gweithredu wedi'u blaenoriaethu ar gyfer adfer natur, fel rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Plymio'n Ddwfn ar Fioamrywiaeth ar gyfer y DLs. Bydd y fframwaith strategol yn ffurfio tudalen gyntaf y Strategaeth Galluogi a fydd yn mynd ymlaen i drafod cyfnewid gwybodaeth, adnabod asedau, meddwl integredig a gwneud penderfyniadau, cynllunio senarios, cytundebau, newid ymddygiad, a llywodraethu. Mae Cynnwys y Llyfr Bach o Opsiynau yn cael ei ddrafftio tra'n chwilio am bartneriaid i'w gyflwyno, sy'n debygol o gael ei anelu at gynhyrchwyr cig eidion a chig oen yn Eryri. Bydd yr Ysgwrn yn destun rhywfaint o waith cwmpasu ar ddefnyddio data a meddwl integredig a gwneud penderfyniadau. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r fframwaith strategol wedi'i drafod gyda'r grŵp plymio dwfn Bioamrywiaeth ac wedi'i ddiwygio. Bydd yn rhan o adroddiad a gyflwynir i'r Gweinidog dros Newid Hinsawdd yn gynnar yn 2024. Mae'r gwaith yn cyd-fynd yn dda iawn â chanlyniadau'r rôl arweiniol strategol ac mae wedi bod yn llwyfan defnyddiol i drafod ymagweddau at ein humateb ar y cyd i natur ac argyfyngau hinsawdd. Agorodd y cyfnod ymgynghori terfynol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar 14 Rhagfyr hyd at 7 Mawrth gan fynnu rhwyfaint o ffocws a fydd yn parhau yn y flwyddyn newydd. Dechreuodd cyfarfod blynyddol** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| | | |
|---|---|---|
| | Ch. 4 | **Cyswllt Amaeth Eryri (Tachwedd) y broses o drafod syniadau, materion, dulliau gweithredu a chyfleoedd i gydweithio ag undebau'r ffermwyr. Mae trafodaethau allanol eraill wedi cynnwys rheoli gêm, atal a rheoli tanau gwyllt, awyr dywyll, credydau carbon, mapio gofodol a chyd-destun polisi Cymru.** |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.1** | (gwyrdd) | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Gwanwyn 2024 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1-2 | Gwaith mewnol ar y strategaeth yn bwrw ymlaen drwy weithdai staff.<br>Ymchwil allanol wedi'i gwblhau. Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro. | | |
| | **Ch. 3** | **Briffiau wedi'u drafftio ar gyfer datblygiad allanol maes strategaeth allweddol – blaenoriaethu gwaith adeiladu rhestredig.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.2** | | **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2023/24 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025**<br>**Paratoi adroddiad yn diweddaru i'r Aelodau** | Parhaus - 2025<br><br>Gawnwyn 2024 | Pen. TDd<br><br>Rheolwr Prosiect y Carneddau |
| | Ch. 1+2 | Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi gwneud cynnydd da iawn yn ystod y ddau chwarter cyntaf ac mae'r prosiect yn rhedeg yn unol â'r amserlen. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r Cynllun yn parhau ar amser.  Adroddiad wedi'i chyflwyno i Weithgor Aelodau Rhagfyr, 2023.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 3.3** | | **Cyflwyno adroddiad terfynol ar Gynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau** | Rhag. 2023 | Rheolwr Prosiect TT Dolgellau |
| | Ch. 1-2 | Mae'r prosiect yn rhedeg yn unol â'r amserlen, i'w gwblhau erbyn diwedd blwyddyn galendr 2023. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r gwaith ar adeilad o'r radd flaenaf o fewn y Cynllun Treftadaeth Trefol wedi'i ohirio.  Mae cytundeb cyflogaeth y Rheolwr Prosiect wedi'i ymestyn am 3 mis er mwyn goruchwylio cwblhau'r Cynllun.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 3.4** | | **Datblygu prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy a fydd yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am arian allanol maes o law a cyflwyno DoDD i'r Gronfa Loteri** | Rhag. 2023 | Pen. TDd. Swyddog Prosiect TDd |
| | **Ch.1- 3** | **Mae gwaith ymgysylltu gydag Ysgol Dyffryn Ardudwy wedi'i gwblhau. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu cymunedol ym mis Medi a Hydref.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.5** | **Ch. 1- 3**<br>Ch. 4 | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru**<br><br>**Mae prosiect dehongli Ynysypandy yn symud yn ei flaen. Mae swyddogion yn gweithredu ar amryfal grwpiau'r dynodiad ac yn cynghori ar ddatblygiadau amrywiol.** | Parhaus | Pen. TDd. |
| **AC 3.6** | **Ch. 1- 3**<br>Ch. 4 | **Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth**<br><br>**Teithiau cerdded wedi cael eu cynnal yn fisol gyda nifer o fynychwyr yn amrywio. Fydd angen i ni geisio hyrwyddo'r teithiau ym mhellach gan dargedu cynulleidfaoedd gwahanol. Fyddwn yn gwahodd arbenigwyr yn y teithiau sy'n cychwyn yn Ionawr.** | Parhaus 2023/24 | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 3.7** | Ch. 1-2<br><br>**Ch. 3 - 4** | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol**<br>Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd ac yn cyfrannu at weithdy Lliniaru Newid Hinsawdd sy'n cael ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 2024. Rydym yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr yn nhirweddaru dynodedig eraill Cymru.<br><br>**Mae swyddogion o bob rhan o'r Awdurdod wedi cyfrannu at weithdy Lliniaru Newid Hinsawdd a byddant yn parhau i fwydo i raglen waith y grŵp.** | Parhaus | Pen. TDd. |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.8** | | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau** | Rhag. 2023 | Pen. TDd. |
| | Ch. 1-2 | Mae'r Ysgwrn yn profi blwyddyn gadarnhaol gyda'r niferoedd ymwelwyr a'r incwm yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cyflwynwyd sawl cais grant llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, gan alluogi rhaglen weithgareddau ac addysg o safon uchel. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae ymweliadau ysgolion a nifer o ddigwyddiadau hyfforddi athrawon a gweithgareddau teuluol wedi'i trefnu ar gyfer Ionawr – Mawrth 2024, er mwyn cynnal a chreu diddordeb yn y safle.** | | |
| **AC 3.9** | | **Datblygu Cynllun Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli/Cynllun Cyflenwi fel llinell sylfaen o wybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau cyfalaf posibl yn y blynyddoedd dilynol** | Mawrth 2024 | Pen. TDd. Swyddog Cynllunio yr Amg. Hanesyddol |
| | **Ch. 1- 3** | **Mae'r gwaith cychwynnol hwn wedi'i gwblhau ac mae gwaith pellach yn cael ei gomisiynu ar hyn o bryd ar gyfer adeiladau rhestredig led-led Eryri.** **Wedi'i gwblhau** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 4.1** | (gwyrdd) | **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol** | Parhaus | *Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir |
| | Ch. 1-2 | Proses barhaus. Wedi'i gyfyngu o ran potensial mewnbwn hyd yma, ond mae datblygiadau newydd yn cynnig gwell potensial. Mae plymio dwfn Bioamrywiaeth hefyd wedi agor llwybr newydd o fynd ar drywydd amcanion.<br>Bydd y Strategaeth Coed a Choetiroedd yn bwydo i mewn i'r uchod. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, tua 40% wedi'i gwblhau. | | |
| | **Ch. 3** | **Parhaus, mae cyflymder a maint y gwaith wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob un o'r meysydd uchod.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 4.2** | (gwyrdd) | **Cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus Brexit ar reoli tir** | Mawrth 2023 + Parhaus | Pen. CCA |
| | **Ch. 1- 4** | **Parhaus, perthynas waith agos yn cael ei chynnal.** | | |

*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.1** | | **Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayyb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri** | Mawrth 2024 | Pen. CCA |
| | Ch. 1-2 | Datblygiadau ar Cynllun Adfer Natur ar weill | | |
| | **Ch. 3** | **Adroddiad Cyflwr y Parc ar y gweill a'r gwaith wedi ei roi allan i dendr. Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cael ei ddatblygu'n fewnol gan y tîm bioamrywiaeth.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **AC 5.2** | | **Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru** | **Adroddiad Blynyddol** | Pen. RhDaCh |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |
| **AC 5.3** | | **Unwaith bydd canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu erbyn 2023 i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu** | Mawrth 2024 | Pen. PC |
| | Ch.1-2 | Cyflwynodd yr Awdurdod ymateb i'r newidiadau arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru: "Budd net ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau" yn ystod mis Mai 2023. Mae'r polisi terfynol i'w gynnwys yn yr iteriad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru (fersiwn 12) wedi'i raglennu tua diwedd 2023. | | |
| | **Ch. 3** | **Dal i aros am gyhoeddiad y polisi a'r canllawiau terfynol yn yr iteriad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgriffiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.4** | | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach** | Cyflwyno adroddiad diweddaru ar brosiectau unigol dwy waith y flwyddyn | Pen CCA<br><br>Rheolwyr Prosiectau |
| | Ch. 1-2 | Mae'r elfen Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA) o'r gwaith ar darged | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Cynnydd wedi'i wneud, gwaith yr adran CCA ar darged. Bydd yr ail adroddiad cynnydd yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau yn ystod Pwyllgor PaA, Mawrth.** | | |
| **AC 5.5** | | **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS) a pharatoi Strategaeth Coed a Choetir ar gyfer Eryri** | Mawrth 2025 | Pen CCA |
| | Ch. 1-2 | Mae gwaith Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS) yn symud ymlaen yn dda. Strategaeth tua 40% wedi'i chwblhau | | |
| | **Ch. 3** | **9 o 15 arolwg wedi'u cwblhau ar gyfer eleni. Bydd y gweddill yn cael eu cwblhau yn y chwarter olaf. Mae'r strategaeth goed hanner ffordd a disgwylir drafft or ail ran cyn diwedd y flwyddyn ariannol.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

| | | |
|---|---|---|
| Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen | Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024 | Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024 |

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.1** | | **Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas. Wardeinio + Rheolwr Brand a Cynnwys y We |
| | Ch. 1-2 | ➢ Mae ffilter wedi'i roi ar waith ar y safle Teithiau Cerdded a Llwybrau fydd yn galluogi ein cynulleidfa i deilwra eu canlyniadau yn seiliedig ar Leoliad, Anhawster, Hyd, Amgylchiadau, Nodweddion Arbennig a Mynediad Tramper.<br>➢ Hyrwyddwyd llwybrau i'w huwchlwytho i'r wefan (Pontydd Arthog a Betws y Coed)<br>➢ Arweinlyfrau ymweld wedi eu huwchlwytho megis "Dewis y llwybr cywir ar Yr Wyddfa" a 5 "Cymru wedi'i thrwytho mewn Chwedloniaeth" | | |
| | **Ch 3** | **Ymgyrch y gaeaf yn canolbwyntio ar lwybrau hygyrch a thymhorol yn ardaloedd y tu allan i ardal Yr Wyddfa.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CC 1.2** | | **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol** | Parhaus | Pen. Partneriaethau<br>Rheolwr Mynediad a Lles<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | **Ch. 1 - 3** | **Cyflawnwyd y cyfan o'r uchod a chyflwynwyd Strategaeth Wirfoddoli wedi'i diweddaru ac adroddiad blynyddol i'r Aelodau ym mis Mehefin 2023. Mae'r Swyddog Gwirfoddoli yn gweithredu fwy fel swyddog Gwirfoddoli Corfforaethol ac yn parhau i ehangu ar ystod o brofiadau gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.3** | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig** | Parhaus | Pen. Partneriaethau Rheolwr Mynediad a Lles Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | Ch. 1-2 | Mae Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022 yn dangos cynnydd amlwg mewn gwirfoddolwyr er ei bod yn anodd casglu'r data sydd ar gael ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig. Mae grwpiau ffoaduriaid a sefydliadau elusennol eraill i gyd wedi bod yn rhan o'r rhaglen yn 2022-23 ac mae'r Swyddog Gwirfoddoli yn parhau i ehangu perthnasoedd yn y meysydd hyn | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Fel uchod – mae'r gwaith yn parhau i Swyddog Gwirfoddoli a Lles.** | | |
| **CC 1.4** | | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | **Adroddiad blynyddol** | Pen. RhDaCh |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **CC 1.5** | (gwyrdd) | **Erthygl 4:**<br>➢ **Cynhyrchu adroddiad tystiolaeth drafft yn ceisio cyngor cyfreithiol**<br>➢ **Cyflwyno adroddiad tystiolaeth i'r Aelodau ar gyfer penderfyniad i symud ymlaen neu fel arall**<br>➢ **Os yn symud ymlaen gyda Chyfarwyddeb Erthygl 4 yn Eryri, cychwyn cyfnod o 12 mis o rybudd ac ymgynghoriad cyhoeddus** | Tachwedd/ Rhagfyr 2023 | Cyf. CaRhT |
| | Ch. 1- 2 | Papur cyfiawnhau Erthygl 4 wedi'i ddrafftio a chyngor cyfreithiol wedi'i geisio yn ystod Haf 2023.<br>Adroddiad ar gyfeiriad Erthygl 4 wedi'i ddrafftio ar gyfer y Gweithgor Aelodau ym mis Hydref. | | |
| | **Ch. 3** | **Drafftiwyd papur drafft cyfiawnhau Erthygl 4 ac aethpwyd ag adroddiad cychwynnol ar gyfarwyddyd Erthygl 4 i'r Gweithgor Aelodau ym mis Hydref ac i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Rhagfyr. Roedd yr aelodau'n cefnogi mewn egwyddor yr angen i fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi o gyflwyno Cyfarwyddeb Erthygl 4 yn Eryri.**<br>**Cafwyd cyngor cyfreithiol pellach ynghylch y berthynas rhwng cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 a pholisi presennol yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Roedd y farn gyfreithiol yn cadarnhau bod Polisi Strategol G yn darparu "bachyn" polisi digonol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwyliau a chadarnhawyd hefyd fod y bachyn polisi yn ddigon i symud ymlaen gyda pharatoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad pellach.**<br>**Bydd adroddiad pellach i gymeradwyo ymgysylltu ar y cynnig i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei cyflwyno i Bwyllgor PacA ym mis Mawrth 2024 gyda'r bwriad o ymgynghori yn ystod Gwanwyn 2024. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer y cyfnod ymgysylltu chwe wythnos yn y Gwanwyn.**<br>**Roedd yr Aelodau hefyd yn cefnogi'r angen i barhau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i chwilio am adnoddau cynllunio ychwanegol yn y tymor hir er mwyn gweithredu Erthygl 4 yn effeithiol yn Eryri.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.6** | (gwyrdd) | **Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri (CCE), yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r Iaith Gymraeg.** | Mawrth 2024 | Pennaeth Partneriaethau<br><br>Swyddog Prosiect CCE |
| | Ch. 1-3 | Mae Cronfa Cymunedau Eryri wedi ariannu 9 prosiect yn 2023-24 – pob un ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn Chwefror 2024.<br>Cyfanswm cyllid y prosiect yw £59,958.95. Mae ceisiadau wedi blaenoriaethu'r themâu canlynol:<br>• seilwaith gwyrdd<br>• gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles<br>• cynhyrchu ynni<br>• gwelliannau amglycheddol lleol megis sbwriel a rheoli gwastraff<br>• datblygu cymunedol<br>• ffyniant yr iaith Gymraeg<br>• datgarboneiddio<br>Mae cronfa grantiau bach cymunedol a llesiant y PC yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn ac mae wedi cynorthwyo mewn amrywiaeth o brosiectau sydd eisoes yn y flwyddyn ariannol hon | | |
| | **Ch. 4** | **Mae CCE ar y trywydd i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2024 a disgwylir i'r gronfa newydd o £75,000 agor ar 1af Ebrill 2024 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Mae'r Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn coladu adroddiad ar gyfer swyddogion LIC ac Aelodau'r Awdurdod yn manylu ar sut mae'r gronfa hon yn cael ei datblygu a sut mae wedi cefnogi cymunedau ar draws Eryri.** | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

(ambr) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 2.1 | | **Aelodau i gysidro Maniffesto Ieuenctid drafft** | Medi 2023 | Pen. WaM Swyddog Pobl Ifanc |
| | Ch. 1+2 | Wedi cychwyn taith o amglych ysgolion i gynnal gweithdai yn hyrwyddo gwaith y Parc a derbyn barn ynglyn yr hyn hoffent eu gweld yn digwydd. Fydd y gweithdai yn darparu barn a gwybodaeth fydd yn rhan o'r Maniffesto. | | |
| | **Ch. 3** | **Bydd y Maniffesto drafft yn cael ei gyflwyno i'r Tim Rheoli yn Chwefror ac i weithgor Aelodau yn fuan wedyn.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| CC 2.2 | | **Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun** | Chwefror 2024 | Pen. WaM |
| | Ch. 1+2 | Y cynllun Ceidwad Ifanc yn parhau gyda amrywiaeth o weithgareddau ar draws y Parc. Rydym yn parhau i chwilio am fynhonellau cyllidol ac wedi derbyn cyngor addawol gyda arian Loteri. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae sesiynau Ceidwaid Ifanc yn parhau gyda phresenoldeb da, pob sesiwn yn amrywio rhwn 5 a 12 o fynychwyr. Yn dilyn gwaith ymgynghori a mabwysiadu'r maniffesto, bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r Loteri. Ceisiwyd cyllid hefyd drwy Bartneriaeth y Parciau Cenedlaethol.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.1 | | **Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.** | Lansio Medi 2023 Mawrth 2024 | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | **Ch. 1-3**<br><br>Ch. 4 | **Cwblhawyd Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri a'i lansio'n swyddogol ar 25 Medi 2023. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r Bartneriaeth a Grŵp Llywio i gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu cyntaf erbyn diwedd Mawrth 2024.** | | |
| CC 3.2 | | **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:** | Parhaus tan Ebrill 2025 | Pen. Partneriaethau |
| | **Ch. 1-2** | ➢ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafnidiaeth a pharcio Gogledd Eryri<br>➢ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafnidiaeth yn ardal Nantgwynant.<br>➢ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen<br>Mae grwpiau partneriaeth Nant Gwynant ac Ogwen yn cyfarfod yn fisol ac maent wedi cael cyrhaeddiad sylweddol yn nhymor 2023 drwy gydweithio yn y ddwy ardal.<br>Prosiectau TrC ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-4 yw: Strategaeth Arwyddion Eryri, i ddatblygu argymhellion ar gyfer arwyddion gwell a chyson yn y Parc Cenedlaethol; Hwb Trafnidiaeth Llanberis, cymryd dyluniadau cysyniad i mewn i broses Wel-Tag Cam 1 a 2 gan gasglu mewnbwn gan yr holl randdeiliaid; Rhwydwaith Sherpa'r Wyddfa, yn parhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau sy'n rhedeg o amgylch ardal Yr Wyddfa; T10 Gwasanaeth Bangor i Gorwen, parhau i wella'r gwasanaeth hwn. Nid yw'r Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023 – mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain ar hyn ac yn trefnu'r cyfarfod nesaf gyda'r holl aelodau i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen. | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| | | |
|---|---|---|
| | **Ch. 3- 4** | **Fel uchod – mae'r Grŵp cyflawni wedi cyfarfod ym mis Ionawr 2024 ac mae'r Cynllun Gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu ar Lefel Strategol. Mae Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir wedi trefnu trafodaethau ag Awdurdodau Cynllunio eraill yn y rhanbarth i sicrhau bod y gwaith o ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau ar gyfer Trafnidiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth. Mae Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol sy'n cyfeirio at y gwaith a gyflawnwyd gan yr Awdurdod ac yn ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer da.** |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.3** | | **Annog ymwelwyr i ddod ar drafnidiaeth gyhoeddus ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i ardaloedd gwahanol er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol, trwy ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru** | Rhag. 2023 | Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1-3** | **Cyfrannodd canllawiau ymweld ar-lein, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, fideos cyngor warden, erthyglau taledig a llysgenhadon digidol i gyd at negeseuon y tu allan i oriau brig y tymor. Ar ddiwedd Ch2 gweithredwyd negeseuon o amgylch Awyr Dywyll fel rhan o ymgyrch Eryri Ni 23 i annog ymwelwyr ymweld yn ystod tymor y gaeaf.** **Cwblhawyd ar gyfer tymor ymwelwyr 2023** | | |
| **CC 3.4** | | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri a'u defnyddio i helpu i ledaenu negeseuon mewn perthynas â'r uchod. Datblygu achrediad Llysgennad Gwyrdd fel rhan o gynllun Llysgenhadon Eryri gyda modiwlau twristiaeth gynaliadwy cysylltiedig. Cynnwys gwybodath am y rhai sy'n cyflawni'r achrediad ar ein gwefan** | Parhaus<br>Chwefror 2024 | Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |
| | Ch. 1- 2 | Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd – gyda'r nod o gyrraedd 1000 o Lysgenhadon Eryri erbyn 3ydd penblwydd y cynllun ym mis Tachwedd 2023.<br>Yn ystod Tachwedd 2023 bydd wythnos gyntaf Llysgenhadon Cymru gyfan lle mae Eryri yn cynnal digwyddiad Zoom Cymru gyfan a digwyddiad Awyr Dywyll ym Mhlas Tan y Bwlch. | | |
| | **Ch. 3- 4** | **Mae'r Cynllun Llysgenhadon yn parhau i dyfu a datblygu – cyrhaeddodd 1,000 o Lysgenhadon ym mis Tachwedd 2023. Mae modiwl gloywi wedi'i gyhoeddi ar gyfer achrediad 2024 ac yn boblogaidd iawn. Bydd modiwlau newydd ar Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau a Phrosiect Coed Glaw Celtiadd LIFE yn cael eu lansio yn 2024.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen — Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024 — Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.5** | | **Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |
| **CC 3.6** | | **Gweithio gyda Trafnidiaeth Cyrmu i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLl fel rhan o'r broses CDLl mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.** | Mawrth 2024 | Pen. Partneriaethau |
| | Ch. 1-2 | Nid yw'r Grŵp Cyflawni wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2023 – mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain ar hyn ac yn trefnu'r cyfarfod nesaf gyda'r holl aelodau i symud y Cynllun Cyflawni yn ei flaen | | |
| | **Ch. 3** | **Fel CC 3.2 - mae'r Grŵp cyflawni wedi cyfarfod ym mis Ionawr 2024 ac mae'r Cynllun Gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu ar Lefel Strategol. Mae Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir wedi trefnu trafodaethau ag Awdurdodau Cynllunio eraill yn y rhanbarth i sicrhau bod y gwaith o ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau ar gyfer Trafnidiaeth Gynaliadwy ar draws y rhanbarth. Mae Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol sy'n cyfeirio at y gwaith a gyflawnwyd gan yr Awdurdod ac yn ei ddefnyddio fel enghraifft o arfer da.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.1 | | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1+2 | Cynhaliwyd rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i deuluoedd ac i oedolion, sy'n dathlu gwahanol agweddau o ddiwylliant Cymreig, e.e. arddangosfa Geiriau Diflanedig, gweithgareddau celf a nosweithiau cerddorol. | | |
| | **Ch. 3- 4** | **Bydd Yr Ysgwrn yn cynnal nifer o weithgareddau teuluol a digwyddiadau treftadaeth gymunedol o Ionawr – Mawrth 2024.** | | |
| CC 4.2 | | **Datblygu'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' trwy gydweithrediad ag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (gyda chefnogaeth cronfa TCLIC), gan ddod ag arddangosfa 'Geirfa Coll' i Gymru am y tro cyntaf ac arddangos camp ddwyieithog epig y blodeugerddi** | Parhaus hyd ddiwedd yr arddangosfa Mawrth 2024 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Ch. 1+2** | **Lansiwyd yr arddangosfa ym mis Mehefin gyda agoriad swyddogol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau yn llwyddiannus, gan gynnwys adnodd addysg newydd.** **Wedi'i gwblhau** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.3** | | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri** | Mawrth 2024 | Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| | Ch. 1+ 2 | Mae'r gwaith ar y cam nesaf sef enwau llynnoedd Eryri yn parhau a bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2023. | | |
| | **Ch. 3** | **Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Tachwedd 2023. Mae enwau llynnoedd Eryri bellach wedi'u safoni. Bydd cam nesaf y prosiect yn edrych ar enwau rhaeadrau Eryri.** | | |
| | Ch. 4 | | | |
| **CC 4.4** | | **Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy'r strategaeth wirfoddoli gan gynnwys:**<br>➢ Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.<br>➢ Mynychu Eisteddfod Pen Llyn.<br>➢ Cwblhau'r prosiectau dehongli yn Ogwen a Hafod Eryri | Parhaus<br><br>Awst 2023<br><br>Tachwedd 2023 | Rheolwr Mynediad a Lles<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles<br><br>Swyddog Cyfathrebu (GAE)<br>" |
| | Ch. 1+2 | ➢ Darperir cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg trwy baru gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl â'r rhai sy'n dymuno dysgu neu loywi eu Cymraeg llafar<br>➢ Cafodd yr Awdurdod wythnos lwyddiannus iawn ar faes yr Eisteddfod. Daeth nifer dda i'r stondin gyda llawer o wahanol weithgareddau yn cael eu cynnal drwy gydol yr wythnos. Roedd gan Tirweddau Cymru gynrychiolaeth ar y stondin hefyd.<br>➢ Gwaith yn parhau ar ddatblygu darpariaeth dehongli yng Nghanolfan Cwm Idwal. Bydd elfennau'r prosiect a ariannwyd drwy arian grant Cyfoeth Naturiol Cymru megis paneli gwybodaeth ychwanegol a chomisiynu ffilmiau wedi'u cwblhau o fewn y targed. Fodd bynnag, mae gwaith ar agweddau eraill o'r prosiect yn parhau gyda'r nod o'u cyflawni cyn gynted â phosibl o fewn y flwyddyn ariannol hon. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Fel uchod – mae paru dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn bolisi ar gyfer Rhaglen Caru Eryri a Rhaglen Warden gwirfoddol.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.5 | | **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhag. 2025 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | **Diweddariad Ch. 1- 4** | **Mae'r gwaith yn parhau drwy Gynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ac mae Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy wedi cyfrannu dros 150 o enwau i'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, gan gynnwys enwau rhai o furddunnod yr ardal.** | | |
| CC 4.6 | | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | **Adroddiad blynyddol** | Pen. RhDaCh |
| | **Adroddiad blynyddol** | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 5.1 | Gwyrdd | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC** | **Adroddiad blynyddol** | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| | **Adroddiad Blynyddol** | | | |
| CC 5.2 | Gwyrdd | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol** | **Adroddiad blynyddol** | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| | **Adroddiad Blynyddol** | | | |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Oren: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.1** | Gwyrdd<br>**Ch. 1- 3**<br>Ch. 4 | **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis**<br>**Mae'r broses o werthuso aelodau staff yn 2023 ymlaen ers mis Mai. Cyn gynted ag y bydd y broses wedi'i chwblhau byddwn yn asesu'r anghenion hyfforddi.** | Parhaus Mawrth 2024 | Pen. Adnoddau Dynol (AD) |
| **CW 1.2** | Gwyrdd<br>**Ch. 1 - 4** | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau**<br>**Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid.** | Parhaus Mawrth 2024 | Pen. AD<br>Pen. Gwasanaeth |
| **CW 1.3** | Gwyrdd<br>**Ch. 1 - 4** | **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol**<br>**Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol.** | Parhaus Mawrth 2024 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CW 2.1 | ● | **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach** | Mawrth 2024 | Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 4 | Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru. | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 2.2 | ● | **Coladu gwybodaeth parthed arfer gorau mewn Parciau Cenedlaethol eraill, cael adborth gan staff a drafftio papur i'w drafod/ystyried gan y gweithgor Aelodau** | Mawrth 2024 | Pen. AD |
| | Ch. 1-3 | Gwaith ar y gweill i goladu arferion gorau ac adolygu polisïau APCE yn ôl yr angen.<br>Mae arferion gorau Iechyd a Diogelwch Parciau Cenedlaethol eraill ac ALlau rhanbarthol wedi'u coladu a thrafodaethau wedi'u cynnal ar lefel Tîm Rheoli ar y ffordd ymlaen. Daeth trafodaethau i'r casgliad bod angen 2 swydd Swyddog Iechyd a Diogelwch rhan amser i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth Iechyd a Diogelwch gofynnol. Mae Swydd Ddisgrifiad wedi'i lunio ac mae'r swyddi ar hyn o bryd yn y cyfnod recriwtio. Mae papur trafod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor P&R i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. | | |
| | Ch. 4 | Cynhaliwyd cyfweliadau i benodi Swyddog(ion) Iechyd a Diogelwch. Yn dilyn cyfweliadau penderfynwyd cynnig y swydd yn llawn amser i un ymgeisydd llwyddiannus, mae wedi dechrau yn ei swydd ers diwedd Ionawr. **Cwblhawyd** | | |

● Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

● Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

● Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 2.3** | | **Adolygu trefniadau gweithio staff mewn ymateb i darged Llywodraeth Cymru o weithio gartref a gweithio cyfunol o'r cartref/swyddfa lle mae'n bosibl i staff wneud hynny** | Rhagfyr 2023 | Pen. AD |
| | Ch. 1+ 2 | Yn dilyn ymgysylltiad cychwynnol rhwng y Pennaeth AD, y Tîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaeth i gychwyn trafodaethau mewn perthynas â mabwysiadu model Gweithio Hybrid hirdymor ar gyfer yr Awdurdod. Gosodwyd Swydd Ddisgrifiadau swyddi o fewn pob gwasanaeth yn seiliedig ar gweithio o'r Swyddfa/ Cartref/ Hybrid / Gweithiwr o Bell. Ymhellach, mae Polisi Gweithio Hybrid a Pholisi Fflecsi Hyblyg yn cael eu hysgrifennu ac ar ôl eu cwblhau a'u cymeradwyo byddant yn cael eu rhannu gyda staff ac undebau llafur at ddibenion cyd-drafod cyn cychwyn ar gyfnod prawf ar gyfer y ddau bolisi. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r polisiau Gweithio Hybrid a Fflecsi Hyblyg wedi'u cwblhau a'u rhannu â staff ac undebau.** | | |
| | **Ch. 4** | **Cymeradwywyd y ddau bolisi ar 11.01.24. a lansiwyd y polisi Gweithio Hybrid ar 12.01.24. Bydd y polisi Fflecsi Hyblyg yn cael ei lansio ar 01.03.24. am gyfnod prawf cychwynno o 12 mis.** **Cwblhawyd** | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.1** | | **Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf wedi ei chfylwyno i'r Awdurdod.** **Cyflwyno'r ail adroddiad cynnydd i'r Awdurdod** | Mehefin 2023 | Pen. Partneriaethau |
| | **Ch. 1+2** | **Cyflwynwyd ail adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ym mis Mai 2023.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.2** | **Ch. 1- 4** | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru**<br>**Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r Bartneriaeth. Mae arfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd. Mae trefniadau ar gyfer seminar 2024 ar y gweill.** | Parhaus | PW |
| **CW 3.3** | **Ch. 1- 3** | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br>**Mae adnoddau yn cael eu cynhyrchu ar gyfer aelodau PPC a Sefydliad y PC e.e. menter BMW. Mae cynigion pellach yn cael eu datblygu. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol PPC a Sefydliad y PC yn ystod y 3ydd chwarter.** | Parhaus | PW |
| | Ch. 4 | | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.4** | Diweddariad Ch. 1- 2 | **Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br>Dim datblygiad arwyddocaol o ran penodi swyddogion ar gyfer y swyddogaeth gynllunio, fodd bynnag cytunwyd ar gyllideb ar gyfer y swyddogaeth gynllunio. | Parhaus | Cyf. CaRhT |
| | **Ch. 3** | **Dim datblygiad pellach – aros am gynnydd gan PW y CBC.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.5** | | **Er mwyn cyflawni adolygiad Cynllun Eryri 2025 yn unol â'r amserlen, bydd data ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gasglu a'i ddehongli gyda mewnbwn gan gydweithwyr mewnol ac allanol erbyn diwedd 2023. Cyflwyno crynodeb i'r Aelodau.** | Rhag. 2023 | Pen. Partneriaethau |
| | Qtrs. 1- 2 Update | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac efallai y bydd angen diwygio'r amserlenni i adlewyrchu capasiti. | | |
| | **Qtr. 3 – 4** | **Mae Microsafle o Gyflwr y Parc yn cael ei ddatblygu a'r gobaith yw y bydd drafft yn mynd i'r Awdurdod cyn Haf 2024 a'r gwaith i'w gwblhau erbyn diwedd 2024.** | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.1** | | **Sefydlu a oes galw gan Aelodau'r Awdurdod mewn rhaglen fentora ac, os felly, datblygu un** | Rag. 2023 | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | **Ch. 1+2** | **Holiadur wedi'i anfon at yr Aelodau i dderbyn eu barn ar ofynion hyfforddi a datblygu ac yn gofyn a oedd galw am raglen fentora. Derbyniwyd 3 ymateb. Mae nifer yr ymatebion yn awgrymu bod yr angen am raglen fentora yn isel ymhlith aelodau.** **Cwblhawyd** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.2** | | **Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | Ch. 1- 2 | Yn aros am fanylion pecyn hyfforddi Llywodraeth Cymru a chynnwys modiwlau hyfforddi ar gyfer Aelodau. Rhagwelir y bydd y modiwlau hyfforddi yn ymdrin â materion amrywiol megis llywodraethu effeithiol, mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Disgwylir manylion cyn ddiwedd y flwyddyn. | | |
| | **Ch. 3** | **Cadarnhawyd manylion sesiynau hyfforddi LIC fel yr uchod a dyddiadau wedi'u cadarnhau i'w cynnal yn ystod Ionawr/Chwefror, 2024. Mae archwiliad o "Gefnogaeth i'r Aelodau" yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan adran archwilio fewnol Cyngor Gwynedd.** | | |
| | Ch. 4 | | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.1** | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio) |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gynnal sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grwp a gan ysgolion ac mae nifer o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd. Mae denu rhagor o wirfoddolwyr cyson yn parhau yn her.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen — Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024 — Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 5.2 | | **Gweithredu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae metrigau yn y Strategath Gyfathrebu yn cael eu monitro'n barhaus.** | | |
| CW 5.3 | | **Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned** | O leiaf 1 cyfarfod blynyddol | Pennaeth Gwas. Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| | **Ch. 1- 3** | **Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl.** | | |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 5.4 | | **Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Lleol Mynediad Eryri** | Parhaus Mawrth 2024 | Rheolwr Mynediad a Llesiant |
| | **Ch. 1- 3** | Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd y FfLl a gynhalwyd ym mis Mawrth, Mehefin a Medi. Cyswllt nesaf i'w gynnal ym mis Rhagfyr. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae'r nifer o gyfarfodydd FfLl wedi ei leihau i 3 gwaith y flwyddyn yr un i Fforymau'r gogledd a de.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.5** | Cyfarfod Blynyddol | **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol**<br>**Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu i'w gynnal ym mis Tachwedd 2023.** | Cyfarfod Blynyddol Tachwedd | Pennaeth CCA |
| **CW 5.6** | Ch. 1- 3<br><br>Ch. 4 | **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>Mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol wedi'i phenodi ar sail swyddog prosiect dwy flynedd, ym mis Ebrill 2023 i gyflawni Cynllun Cymunedau Eryri ac i ddrafftio Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod. Mae gwaith mapio eisoes wedi dechrau ar draws y Gwasanaethau perthnasol o fewn yr Awdurdod.<br><br>Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod proses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023 wedi derbyn ymateb da gan y Cynghorau Cymuned fel dull ymgysylltu ar gyfer proses CDLl Eryri.<br><br>**Mae Swyddogion Partneriaethau ac Ymgysylltiad Cymunedol wedi bod yn cyfarfod â holl Glercod Cynghorau Cymuned Eryri yn ystod 2023/24. Nodwyd unrhyw bryderon a godwyd a thrafodwyd rhaglenni amrywiol megis Cronfa Cymunedau Eryri, Cynllun Eryri, Caru Eryri ynghyd â gwaith perthnasol eraill.** | Parhaus Mawrth 2024 | Pen. Partneriaethau Pen. RhDaCh Swyddogion |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

## CANLYNIADAU

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

**CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)

**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)***

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2024

## LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/ Gwaith APCE |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4** |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | **CC 3.3**<br>**CW 2.3** |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | **AC 5.5 (PAWS)** |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 5.1 - AC 5.5** |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | **AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4** |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas | **AC 5.1** |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | **CW 3.2** |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | **AC 1.10** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.1** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | - |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | - |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol | - |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.9** |
| Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.7** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2**<br>**CW 5.1** |

Tud. 40

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/ Gwaith APCE |
|---|---|
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
| --- | --- |
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.2 CW 3.3** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau ariannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt.  Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | **AC 2.5** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | **DEDDF RHYDDID GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | Adrodd ar y ceisiadau am wybodaeth a ddaeth i law o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Daeth rhwymedigaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2005. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ceisiadau am wybodaeth a gafodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a sut yr ymdriniwyd â hwy.

1.2 Daeth 28 o geisiadau i law yn ystod y flwyddyn 2023.

1.3 O'r 28 cais, ymdriniwyd â 17 o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac ymdriniwyd ag 11 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Am ddadansoddiad cyffredinol o'r modd yr ymdriniwyd â'r ceisiadau, cyfeiriwch at y tabl ar ddiwedd yr adroddiad.

1.4 O’r ceisiadau hyn, roedd 16 cais yn ymwneud ag amrywiol fathau o wybodaeth sy’n berthnasol i reolaeth datblygu a/neu bolisi cynllunio a materion cysylltiedig â hynny.

1.5 Roedd dau gais yn ymwneud â gwybodaeth am ddefnydd yr Awdurdod o Dechnoleg Gwybodaeth (caledwedd, meddalwedd a systemau), ac roedd tri chais yn ymwneud â gwybodaeth amrywiol yn ymwneud â Maes Parcio Rhaeadr Fawr (cytundeb prydles a chynhyrchu incwm) a’r les ddeiliaid Cwmni Adfywio Abergwyngregyn Cyf.

1.6 Roedd y 7 cais arall yn ymwneud â gwahanol faterion eraill, fel:

- Hawliau Tramwy;
- Cerbydau Trydan ac Unedau Gwefru;
- Gohebiaeth gyda Chyngor Cymuned Aberdyfi;
- Manylion Cytundeb Setliad gyda Rheilffordd Ucheldir Cymru yn 2016;
- Gwybodaeth am ddatblygiad Cynllun Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035;
- Adroddiad a Chofnodion Gweithgor Aelodau; a
- Manylion Staff ar Gontractau Dim Oriau

1.7 Yn ystod y flwyddyn ni chyflwynwyd unrhyw gwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch gwrthod rhyddhau gwybodaeth.

1.8 O'r 28 cais, ni dderbyniodd 1 (un) ohonynt ymateb o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod.

1.9

| **Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** |
|---|
| 7 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn. |
| Gwrthodwyd 2 chais yn llawn neu'n rhannol gan nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nid oedd yr awdurdod yn dal y wybodaeth. |
| Gwrthodwyd 1 cais gan fod bwriad i gyhoeddi'r dogfennau yn y dyfodol, ac felly cawsant eu heithrio o dan Adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. |
| Gwrthodwyd 1 cais gan ei fod wedi'i ddosbarthu fel gwybodaeth eithriedig o dan Adran 30(1)(c) – gwybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus at ddiben unrhyw achos troseddol y mae gan yr awdurdod bŵer i'w gynnal. |

| **Ceisiadau yr ymdriniwyd â hwy o dan y Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** |
|---|
| 8 cais wedi'u caniatáu / datgeliad llawn. |
| Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn cynnwys data personol trydydd parti a ddosbarthwyd yn eithriedig o dan Reoliad 13. |
| Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu nad oedd yr awdurdod yn dal y wybodaeth. |
| Cafodd 1 cais ei wrthod yn rhannol gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i dosbarthu fel un eithriedig o dan Reoliad 12(5)(b) - byddai datgelu'r wybodaeth yn effeithio'n andwyol ar gwrs cyfiawnder, gallu person i gael treial teg neu allu awdurdod cyhoeddus i gynnal ymchwiliad o natur droseddol neu ddisgyblu. |
| Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i dosbarthu fel gwybodaeth eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) - gwybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw aelodau o'r cyhoedd sy'n adrodd am achosion posibl o dor-rheolaeth cynllunio. |
| Gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod ar gyfer ymateb yr Awdurdod i gais am gyngor cyn-cyflwyno cais cynllunio, nad oedd wedi arwain at gais cynllunio eto. Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i gadw'r rhain yn gyfrinachol hyd nes y cyflwynir cais cynllunio, ac yn unol â hynny mae'n cael ei ddosbarthu fel eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. |

| |
|---|
| Gwrthodwyd 4 cais gan eu bod yn geisiadau am chwiliadau cynllunio sydd eisoes yn wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, ac felly nid oes angen eu hystyried naill ai gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 na Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r wybodaeth ar gael drwy ddefnyddio Gwasanaeth Chwiliad Personol yr Awdurdod y mae ffi yn daladwy amdano. |

**2. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Dim goblygiadau uniongyrchol.

**3. ARGYMHELLIAD**

**Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad**

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-28** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | I gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer yr Awdurdod |

## 1. CEFNDIR

1.1 O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau

2011, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd bob 4 blynedd.

1.2 Mae digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu ar y cyd wedi cael eu cynnal gyda'n partneriaid o'r sector gyhoeddus yng Ngogledd Cymru, ac mae hynny wedi arwain at yr Amcanion Cydraddoldeb diwygiedig; sydd hefyd wedi cymryd y data a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar anghydraddoldeb yn genedlaethol ac yn lleol i ystyriaeth.

1.3 Mae'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn destun ymgynghoriad mewnol ar hyn o bryd i adolygu a diweddaru ei gynnwys am y pedair blynedd nesaf, ac i ychwanegu prosiectau a ffrydiau gwaith newydd, gan ystyried y capasiti a'r adnoddau sydd ar gael. Cyn belled ag y bo modd, bydd y cynllun gweithredu yn parhau i alinio'n agos â gweithgareddau craidd ac amcanion llesiant presennol yr Awdurdod.

1.4 Er bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gynllun 4 blynedd, mae'n gallu cael ei adolygu a'i newid ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn.

## 2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

2.1 Dim goblygiadau uniongyrchol, gan fydd y costau wedi cael eu hymgorffori i mewn i'r cyllidebau gwasanaeth cyfredol.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1 Cymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ynghlwm ar gyfer 2024 – 28 yn ffurfiol.**

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Cynllun Cydraddoldeb Strategol
# 2024 – 28

Cyflwyniad .......................................................... 3
Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ..................................... 4
Sut y datblygwyd ein Hamcanion ................................ 6
Amcanion Cydraddoldeb ............................................ 8
Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ................................ 9
Monitro’r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth ............ 10

# Cyflwyniad

## Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 213,200 hectar o gefn gwlad sy'n amrywio o fynyddoedd a gweundir i goetir ac arfordir. Mae tua 24,400 o bobl yn byw yn y Parc a chredir bod 10.5 miliwn yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn.

Mae tua 57% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau canlynol yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Â'r Ddeddf yn ei blaen i ddweud y dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol wrth iddo ddiwallu Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac i'r diben hwnnw dylai gydweithredu gyda'r awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus hynny lle mae hyrwyddo datblygiad economaidd a chymdeithasol yn ardal y Parc Cenedlaethol yn rhan o'u dyletswyddau.

At hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc), Cynllun Datblygu Lleol Eryri ac am benderfynu ceisiadau cynllunio.

# Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Diben Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 yw gofalu bod chwarae teg i bawb trwy roi terfyn ar wahaniaethu, hyrwyddo cyfleoedd a deilliannau cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol unigolion a chymunedau.

Mae'r ddeddf yn amnewid yr 116 o statudau cydraddoldeb gwahanol o dan un statud sy'n cwmpasu popeth. Mae'n symleiddio ac yn egluro rôl yr awdurdodau lleol fel arweinyddion ar gyfer gwella cydraddoldeb ymhlith cymunedau a'u dinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dyletswyddau penodol ac mae'r rhain yn rhoi gofynion manwl a heriol gerbron awdurdodau lleol – ond mae pwyslais ar 'ystyriaeth briodol' sy'n rhoi mwy o ryddid i awdurdodau i gynhyrchu'r atebion cywir mewn ymateb i broblemau penodol lleol ac maent yn fwy atebol i'w cymunedau.

## Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw o agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hyn yn cael eu diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- **Oedran**
- **Newid rhyw**
- **Rhyw**
- **Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl**
- **Anableddau**
- **Beichiogrwydd a mamolaeth**
- **Tueddfryd rhywiol**
- **Crefydd neu gred**

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafriaeth / gwahaniaethu.

## Yr Iaith Gymraeg

Er na ystyrir bod yr iaith Gymraeg yn nodwedd a ddiogelir o dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdod yn credu na ddylai pobl Cymru ddioddef unrhyw anffafriaeth yn sgil defnydd o'r iaith Gymraeg na'r dymuniad i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, gan fod 57.2% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021).

Yn unol ag ymrwymiad yr Awdurdod i ddiogelu, cyfoethogi a hyrwyddo'r Gymraeg (fel un o rinweddau arbennig Eryri), bob tro y cyflwynir gweithdrefn, polisi, strategaeth neu gynllun newydd neu ddiwygiedig gan yr Awdurdod, bydd rhan o'r broses yn cynnwys asesiad llawn i ddadansoddi ei effaith ar y Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau nad yw gweithredoedd yr Awdurdod yn gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl sy'n siarad Cymraeg. Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried ffyrdd y gallwn hybu'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r weithdrefn, polisi, strategaeth neu gynllun newydd neu ddiwygiedig.

## Y Ddyletswydd Gyffredinol

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu / anffafriaeth, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Mae rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gyflawni'r rhain yn golygu y dylid:

- chwalu neu leddfu'r anfanteision a deimlir / brofir gan bobl oherwydd y nodweddion wedi'u diogelu sydd ganddynt;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o'r carfanau hyn sydd wedi'u diogelu, pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl sydd â nodweddion wedi'u diogelu i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae nifer cymharol fychan ohonynt yn cyfranogi.

## Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â'r hyn a ganlyn:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau ar sail tâl
- Hyfforddiant staff
- Pwrcasu
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

# Sut y datblygwyd ein Hamcanion

## Ymgynghori ac Ymgysylltu

Ers i'r ddeddfwriaeth Cydraddoldeb gael ei gyflwyno yn 2010, mae cynrychiolwyr o'r prif gyrff cyhoeddus ar draws gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb, rhannu ymarfer da, ac i fynd i'r afael a materion o anghydraddoldeb sydd yn trawstorri'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth, o dan faner gyfunol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (cyfeirir ato fel "y Rhwydwaith" ar ôl hyn).

Ynghyd â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mae partneriaid y Rhwydwaith yn cynnwys pob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans.

Ers 2010, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu a hwyluso nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori ar draws gogledd Cymru ar gyfer datblygu, addasu ac adolygu amcanion cydraddoldeb rhanbarthol lefel uchel. Arweiniodd hyn nid yn unig at rannu adnoddau a lleihau costau yn yr hinsawdd economaidd heriol hon, ond bu'n fuddiol i'r ymgynghorwyr (gyda nifer ohonynt yn gweithio yn wirfoddol) gan eu bod wedi gallu cymryd rhan mewn un ymgynghoriad mawr ar draws gogledd Cymru yn lle mynychu nifer o ymgynghoriadau unigol yr awdurdodau.

Yn ystod 2023, cynhaliwyd nifer o weithgareddau a digwyddiadau ar draws gogledd Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori gyhoeddus i adolygu a diwygio ein Hamcanion Cydraddoldeb presenola rennir. Roedd y rhain yn cynnwys diwrnodau agored, gweithdai, cyfarfodydd cymunedol a rhanddeiliaid a digwyddiadau penodol a drefnwyd fel boreau coffi gyda grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig.

Yn ogystal, hyrwyddwyd holiadur cyhoeddus ar-lein yn eang gan yr holl bartneriaid yn ystod misoedd yr haf 2023 a ddenodd 69 o ymatebion.

Ynghyd â'r dadansoddiad o ymchwil lleol a chenedlaethol (a amlinellir isod), cafodd Amcanion Cydraddoldeb Gogledd Cymru a rennir eu hadolygu a'u newid yn unol â hynny, a'u mabwysiadu gan y Rhwydwaith ar gyfer y cyfnod 2024 – 28.

## Gwybodaeth o Ymchwil Lleol a Chenedlaethol

Yn ystod y flwyddyn dadansoddodd yr Awdurdod ddata cyfrifiad 2021 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol pan oedd y setiau data ar gael. Mae'r data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig o 24,418 wedi cael ei rhannu o dan amrywiol gategorïau gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teulu a sgiliau iaith Gymraeg. Mae data'r cyfrifiad yn rhoi darlun o fywyd mewn cymunedau unigol yn y Parc Cenedlaethol ynghyd â darparu gwybodaeth leol werthfawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw data'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth am yr holl nodweddion a ddiogelir.

Ym mis Medi 2022, cafodd Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru eu diweddaru. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniad i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y 7 Nod Llesiant.

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? Mae hwn yn adroddiad wedi'i ddiweddaru ar gyflwr y genedl yng Nghymru o ran cydraddoldeb a hawliau dynol.

Er bod adroddiad y CCaHD a'r Dangosyddion Lles Cenedlaethol yn ddefnyddiol i ddangos y darlun cenedlaethol, mae yna wahaniaeth mawr yn gallu bodoli rhwng rhanbarthau a siroedd. Comisiynwyd gwaith pellach gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol i dorri'r data cenedlaethol i lawr ac ategu hyn gyda data lleol ychwanegol, i greu darlun cliriach o'r sefyllfa ym mhob un o siroedd gogledd Cymru.

Arweiniodd dadansoddiad o’r holl wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar y cyd â’r ymarfer ymgynghori at ddiwygio 7 amcan lefel uchel, sef y 7 amcan a fabwysiadwyd ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod 2024 - 2028.

Er bod pob partner wedi ymrwymo eu hunain i’r amcanion, mae’r Rhwydwaith wedi cytuno y dylai bob partner gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy’n faes blaenoriaeth iddynt hwy ac sy’n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Yn ychwanegol i hyn, mae gan y partneriaid y rhyddid i ddatblygu amcanion pellach y maen nhw wedi’u hadnabod sy’n bwysig yn eu hardal hwy.

# Amcanion Cydraddoldeb

Y 7 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Mae deilliannau mewn cyrhaeddiad addysgol a lles mewn ysgolion yn gwella.

2. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn lleihau bylchau cyflog.

3. Byddwn yn cymryd camau i wella safonau byw pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

4. Byddwn yn gwella canlyniadau iechyd, lles a gofal cymdeithasol.

5. Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder.

6. Cynyddu mynediad i gyfranogiad er mwyn gwella amrywiaeth y penderfyniadau a wneir.

7. Mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol trwy gynnig gwasanaethau cynhwysol i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Oherwydd rôl a dyletswyddau penodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ychydig iawn o ddylanwad uniongyrchol, os o gwbl, sydd gennym ar rai o’r amcanion hyn. Fodd bynnag, gellir gwneud cyfraniadau cadarnhaol drwy feysydd gwaith unigol, a fydd yn cyfrannu at sicrhau canlyniadau ar draws gogledd Cymru.

Dros y flwyddyn i ddod, bydd yr Awdurdod yn adolygu ac yn asesu sut y bydd ei gynllun gweithredu cydraddoldeb presennol yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â phob un o'r Amcanion Cydraddoldeb hyn. Bydd prosiectau a ffrydiau gwaith newydd a rhai sydd ar ddod hefyd yn cael eu gwerthuso a'u hychwanegu at y cynllun gweithredu a'u hadrodd yn llawn i Aelodau'r Awdurdod maes o law.

# Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod gael trefniadau yn eu lle i alluogi ar gyfer asesu effaith debygol unrhyw bolisïau ac ymarferion arfaethedig ar ein gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol, ynghyd ag effaith unrhyw bolisïau neu ymarferion pan fyddwn yn penderfynu eu hadolygu neu eu diwygio.

Am bob polisi neu ymarfer newydd (neu adolygiad o bolisi neu ymarfer presennol) bydd yr Awdurdod yn asesu'r effaith tebygol ar bobl fydd yn rhannu nodweddion a ddiogelir trwy ymgymryd ag asesiad sgrinio cychwynnol.

Os yw'r polisi neu ymarfer yn debygol o gael effaith, ymgymerir ag asesiad o effaith cydraddoldeb llawn a bydd adroddiad o'r asesiad yn cael ei gynhyrchu. Bydd pob adroddiad ar yr asesiad yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- pwrpas y polisi neu'r ymarfer sy'n cael ei asesu, os yw'n bolisi newydd neu yn un sy'n bodoli'n barod sy'n cael ei adolygu neu ei ddiwygio;
- crynodeb o'r camau a gymerwyd i asesu'r effaith tebygol ar y polisi neu ymarfer diwygiedig neu arfaethedig;
- crynodeb o'r dystiolaeth a gafodd ei ystyried fel rhan o'r broses asesu;
- canlyniadau'r asesiad; ynghyd ag
- unrhyw benderfyniadau a wnaed yn dilyn yr asesiad.

Cynhyrchwyd templed asesiad effaith cydraddoldeb sydd bellach yn cynnwys dadansoddi effaith economaidd-gymdeithasol penderfyniadau strategol. Mae'r templed hwn yn cael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i wella bob tro y bydd gofynion statudol newydd, canllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru neu achosion tribiwnlys a llys perthnasol yn cael eu cyhoeddi neu'n dod ar gael.

# Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth

Bydd y gweithrediadau sydd wedi eu hamlinellu yn y cynllun hwn ac sydd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn cael eu monitro'n rheolaidd. Bydd y canlyniadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn flynyddol ym mis Gorffennaf.

Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol a gwneud datganiadau cynnydd ar yr hyn a ganlyn:

- y camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd er mwyn nodi / adnabod a hel gwybodaeth berthnasol;
- mewn perthynas â'r wybodaeth sydd ganddo, sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer y diben o gyflawni'r pwrpas o gydymffurfio gyda'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau yn y rheoliadau;
- y rheswm pan nad yw wedi casglu'r wybodaeth berthnasol a nodwyd ganddo ond nid yw yn ei feddiant;
- y cynnydd a wnaethpwyd tuag at gyflawni pob un o'r amcanion cydraddoldeb;
- datganiad ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer nodi / adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol, a'r camau a gymerwyd tuag at gyflawni pob un o'r amcanion cydraddoldeb; a'r
- wybodaeth y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei chyhoeddi mewn perthynas â gwybodaeth cyflogaeth.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ei le am 4 mlynedd, ond caiff ei adolygu a'i ddiwygio fel bo'r angen ar sail flynyddol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y manylion a osodwyd allan yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn trwy ysgrifennu neu yrru e-bost at:

**Bethan Wyn Hughes**
Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
E-bost: Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF

**EITEM RHIF 12**

| | |
|---|---|
| | **BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH**<br>**DYDD MERCHER 15 TACHWEDD 2023** |
| | **Yn bresennol:**<br><br>**Aelodau:**<br>Ms. Tracey Evans<br>Mr. Tim Jones (Cadeirydd)<br>Cyng. Meryl Roberts<br>Emyr Williams<br>Iwan Jones<br><br>**Swyddogion:**<br>Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, David Williams, Edward Jones, Nia Murray, Anwen Gaffey, Sarah Roberts.<br><br>Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion. |
| 1 . | **Ymddiheuriadau** |
| | Cyng. Annwen Hughes (ex.officio) |
| 2 . | **Datgan Budd** |
| | Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem. |
| 3. | **Cofnodion** |
| | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar yr 13 Medi 2023, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir. |
| **4.** | **Plas Tan y Bwlch Opsiynau ar gyfer y Dyfodol** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Bwrdd lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch i'w hystyried gan yr Awdurdod.<br><br>Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, ac er ei fod yn debyg i gofnodion y cyfarfod blaenorol pan dderbyniodd yr Aelodau adroddiad llafar, teimlai fod angen adroddiad ysgrifenedig ar yr achlysur hwn. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r cyfleoedd ym Mhlas Tan y Bwlch, ochr yn ochr â'r baich o ran adnoddau y mae'n ei roi ar yr Awdurdod. Rhoddwyd y cefndir, y costau cyfalaf a refeniw, y materion uniongyrchol, a'r angen i ddatblygu cynllun busnes i egluro sut mae Plas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru fel rhan o'i waith archwilio diweddar ar gynhyrchu incwm. |

| | |
|---|---|
| | Ailedrychodd y Prif Weithredwr ar yr hyn a ystyriwyd yn flaenorol, megis yr hyn y mae perchnogaeth/rheolaeth Plas Tan y Bwlch yn ei ddarparu i'r Awdurdod ac a oes angen Plas Tan y Bwlch ar yr Awdurdod i gyflawni ei fusnes a chwrdd â'i bwrpasau statudol.<br><br>Yn codi wedi hynny, bu Aelodau a swyddogion yn trafod yr her gan Archwilio Cymru drwy asesu sut mae Plas Tan y Bwlch yn cyfrannu at bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Cytunwyd:-<br>- Pwrpas 1af – ymylol oedd hyn ar wahân i warchod adeilad rhestredig Gradd II*. Bu Plas Tan y Bwlch yn Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol yn y gorffennol a derbyniodd grant i gynnal y gwaith hwn, ond nid felly mae pethau bellach.<br>- 2il bwrpas – o bosibl roedd yr Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd a chyflawni ei ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Er, yr oedd nodwyd bod Plas Tan y Bwlch hefyd yn cyfrif am 50% o ôl troed carbon yr Awdurdodac yn effeithio ar ymrwymiad y Parc Cenedlaethol o ran cyflawni sero net.Teimlai'r Aelodau fod yna fusnesau mwy cynaliadwy a allai wneud hynny a darparu'r un gwasanaeth ac o bosibl cyflogi mwy o staff i wneud hynny.<br>- dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Plas Tan y Bwlch yn denu cynulleidfa wahanol i'r rhai sy'n mwynhau gweithgareddau awyr agored, megis pobl sy'n mwynhau dosbarthiadau peintio a chrefft ac ati, sydd angen ei fesur yn erbyn y gost i'r Awdurdod o ddarparu cyrsiau o'r fath. Gan fod cyllid yn mynd yn llai bob blwyddyn a bod gan yr Awdurdod bwysau ychwanegol i wneud gwaith arall, megis y Cyfarwyddyd Erthygl 4 y bydd angen adnoddau arno, a bydd angen i'r Bwrdd wneud dewisiadau anodd.<br>- Teimlai'r aelodau fel ased bod Plas Tan y Bwlch yn risg i unrhyw sefydliad. Roedd yn bwysig cael cynllun busnes da yn ei le gyda'r staff cywir i'w gyflawni a chan mai dim ond gyda gweithgareddau nad oeddent yn cyd-fynd â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol yr oedd yr Awdurdod wedi gallu cynhyrchu incwm, roedd yn draul parhaus ar adnoddau yn ariannol ac o ran staff, ill dau.<br>- teimlai'r Cadeirydd fod y Bwrdd wedi trafod yr un materion hyn droeon ac nad oedd y cyfeiriad wedi newid. Dylai'r Bwrdd nawr gyflwyno argymhellion i Weithgor Aelodau yn ddi-oed.<br>- nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod yn gyfrifol am arian cyhoeddus ac y dylai allu dangos y manteision o ran pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, yr unig fanteision oedd i'r economi leol a chyflogaeth, a'r buddsoddiad mewn cadw adeilad o bwysigrwydd hanesyddol.<br>- cytunodd y Pennaeth Adnoddau Dynol fod Plas Tan y Bwlch yn hynod o ar wahân i'r Awdurdod a'i bwrpasau a bod y staff hefyd yn teimlo hyn. 'Roedd angen cyllid sylweddol i adnewyddu y tu mewn i'r tŷ ac angen cynllun busnes cryf. Mae staff yn derbyn cwynion yn rheolaidd am y carpedi, ystafelloedd ymolchi, bleindiau ac ati, sydd wedi achosi straen ac absenoldebau salwch. Roedd y staff i gyd yn frwd ynghylch Plas Tan y Bwlch, ond fel ag y mae, roedd ymhell o fod yn gallu darparu llety addas i'r cyhoedd.<br>- dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo fod yr incwm blynyddol o £20k o'r cynllun hydro, a sefydlwyd gydag arian ar ôl gwerthu Porth Gwyn, wedi'i glustnodi i uwchraddio a chynnal y gosodiadau a'r ffitiadau mewnol. Gan fod y Ganolfan yn gweithredu ar golled, defnyddiwyd y cyllid i wneud iawn am hyn. Hefyd, gan nad oes gan Blas Tan y Bwlch Gynllun Busnes â ffocws, roedd hyn wedi llesteirio'r gallu i gwblhau asesiad Treftadaeth.<br>- nododd Aelod ei siom nad yw cymunedau'r dalgylch yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Ganolfan a bod cyflwr mewnol y tŷ wedi gwaethygu. |

| | |
|---|---|
| | - Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion opsiynau ar gyfer y dyfodol yn fanwl a chytunwyd mai'r opsiwn a ffefrir fyddai gweithio mewn partneriaeth neu sefydlu trefniant rhyddfraint gyda sefydliad arall megis YHA. Yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y gallai'r costau cynnal a chadw arfaethedig o £3 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf fod yn ormod o rwymedigaeth i ddarpar bartneriaid, er pe bai cais loteri Cyngor Gwynedd ar gyfer dynodiad Treftadaeth y Byd Dyffrynnoedd Llechi yn llwyddiannus, gallai hyn gyfrannu at welliannau cyfalaf ym Mhlas Tan y Bwlch a lleddfu pryderon unrhyw ddarpar bartneriaid.<br>- gofynnodd Aelod i swyddogion ystyried trosglwyddo'r ased i grŵp cymunedol. Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y gellid ystyried hyn ond byddai hyn yn gadael y gost o gynnal a chadw'r adeilad gyda'r Awdurdod.<br>- os bydd dod o hyd i bartneriaeth yn methu, yr opsiwn nesaf fyddai gwerthu Plas Tan y Bwlch ar y farchnad agored. Nododd y Bwrdd y gost flynyddol barhaus i'r Awdurdod ond rhoddwyd sicrwydd iddynt fel yr awdurdod cynllunio lleol y gallai Aelodau gadw elfen o reolaeth dros unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. Bydd trafodaethau pellach ar ddosbarthiadau defnydd yn cael eu cynnal gyda'r Gwasanaeth Cynllunio.<br>- dywedodd y Pennaeth Eiddo fod prisiwr yr asedau yn teimlo bod gwerth Plas Tan y Bwlch wedi'i gyfyngu gan faint ôl troed y tir o'i gwmpas, a hefyd mae'r cyfrifon yn dangos bod y Ganolfan wedi methu â gwneud elw.<br>- cytunodd holl Aelodau'r Bwrdd nad yw Plas Tan y Bwlch bellach yn bodloni anghenion yr Awdurdod nac yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Dylai swyddogion nawr gyflwyno adroddiad i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd i ddod i'w gasgliad.<br>- cytunodd y swyddogion y byddai'r adroddiad hefyd yn rhoi amcangyfrif o'r gost o gadw'r adeilad o'r neilltu.<br>**GWEITHRED**<br>- **y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd i ddod i'w gasgliad. Dylai'r adroddiad argymell bod swyddogion yn defnyddio dull deuol wrth chwilio am bartneriaid / masnachfraint / grwpiau cymunedol posibl dros fisoedd y gaeaf, ochr yn ochr â pharatoadau i werthu'r Ganolfan ar y farchnad agored yn y gwanwyn, pe na bai partneriaeth yn cael ei chanfod. Dylai swyddogion nodi'n glir mai 2024 fydd y flwyddyn olaf y byddai'r Awdurdod yn ceisio ffurfio partneriaeth oni bai bod hyn yn cynorthwyo partner posibl.**<br>- **yn dilyn yr adroddiad i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024, i gyflwyno adroddiad pellach o gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2024 ar gyfer penderfyniad ffurfiol.** |
| 5 . | **Diweddariad ar Ffabrig yr Adeilad** |
| | Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo i roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed.<br><br>Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo yr adroddiad ac amlinellodd y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn fanwl. Cadarnhaodd hefyd fod y ddau gwmni y cysylltwyd â hwy ynglŷn â marchnata'r eiddo wedi argymell cynnig y stad gyfan fel un uned, gan gynnwys y tir o amgylch y prif adeilad a Llyn Mair. Cadarnhaodd, yn dilyn gosod seiffon newydd yng Nghronfa Ddŵr Llyn Mair, y bydd yr holl fesurau er budd |

| | |
|---|---|
| | diogelwch yn gyflawn, a bydd y gronfa ddŵr yn y cyflwr gorau posibl yn barod ar gyfer unrhyw benderfyniad yn y dyfodol.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br>**1. nodi opsiwn a ffefrir (b) ar gyfer atgyweirio wal barapet y talcen dwyreiniol a rhan o'r drychiad cefn cysylltiedig, gan ei fod yn darparu gwerth gorau am arian yn y tymor hir.**<br>**2. nodi'r gwahaniaeth mewn asesiadau gwerth a nodi costau cynnal a chadw hirdymor yr adeilad a'r eiddo yn ei gyfanrwydd wrth ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.** |

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.40**

**EITEM RHIF 13**

**ADRODDIAD CYFARFOD Y GRWP RHEOLI ASEDAU A GYNHALIWYD AR 31ain IONAWR 2024**

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr June Jones, Meryl Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans;

**Swyddogion**
Mr. Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones, Mr. Edward Jones, Mrs. Sarah Roberts

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.

1. **Ethol Cadeirydd**
**PENDERFYNWYD ethol Mr. Brian Angell yn Gadeirydd y Grŵp Rheoli Asedau am y flwyddyn i ddod.**
Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Ymddiheuriad**
Y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd; Tim Jones.

3. **Datganiad Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

4. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

<u>Yn codi wedi hynny,</u>
<u>5. Diweddariad ar y Cynllun Rheoli Asedau</u>
Ymddiheurodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo am yr oedi cyn ailgynnull y cyfarfod a oedd i fod i gyfarfod ym mis Chwefror/Mawrth y llynedd ond oherwydd problemau gyda meysydd gwaith eraill ni fu'n bosibl.
Dywedodd yn anffodus na fu unrhyw gyfle am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu costau gosod y seiffon yn Llyn Mair a chadarnhaodd nad oedd y Atkins Engineers wedi gallu cwblhau’r gwaith erbyn Tachwedd 2023 fel y cynigiwyd oherwydd eu capasiti gwaith, ond y bwriad oedd symud ymlaen gyda’r gwaith cyn gynted â phosibl.
Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo yr Aelodau yn anffodus nad oedd adolygiad llawn o'r Portffolio Asedau wedi'i gwblhau hyd yma, ond y bwriad oedd ailgynnull dros y chwe mis nesaf i adolygu'r Portffolio Asedau a'r system goleuadau traffig ac felly byddai'n cael ei fabwysiadu'n ffurfiol fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rheoli Asedau.

5. **Cynllun Rheoli Asedau**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo i roi diweddariad ar gynnydd ac i ystyried argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo yr adroddiad a'r Atodiadau, a rhoddodd ddiweddariad i'r Aelodau ar y prif ddatblygiadau. Cyfeiriodd at baragraff 1.3 o'r adroddiad a chadarnhaodd, yn dilyn sylwadau gan y Tîm Rheoli, fod y gyllideb cynnal a chadw a ddefnyddiwyd i wneud mân waith adweithiol rheolaidd a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn yn ddigonol, ond bod ail ran y gyllideb yn ddibynnol ar y cronfeydd wrth gefn a byddai angen i aelodau ystyried a oedd yn ddigonol neu a ddylid ei gynyddu.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol yn fanwl:-

- Plas Tan y Bwlch - Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo y byddai unrhyw fuddsoddiad a wneir ar Blas Tan y Bwlch er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn strwythurol ddiogel ac yn ddiddos / lleihau dŵr yn mynd i mewn i ffabrig yr adeilad er mwyn cadw'r adeilad yn y cyflwr gorau posibl.
- Hysbysodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr Aelodau bod yn rhaid gwneud gwaith ar y waliau allanol oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch ac atgoffodd yr Aelodau gan fod Plas Tan y Bwlch yn adeilad Rhestredig Gradd II* mai cyfrifoldeb yr Awdurdod oedd cynnal a chadw'r adeilad i safon dderbyniol i ddiogelu enw da'r Awdurdod. Nododd yr aelodau hefyd fod gwaith ar Lyn Mair yn hanfodol i gydymffurfio â rheoliadau.
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, er bod yr Awdurdod yn ddibynnol ar y cronfeydd wrth gefn, ei fod yn credu bod y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol i dalu am y gwaith presennol. Byddai angen adeiladu'r gronfa wrth gefn yn ôl i'r lefelau blaenorol pe bai'r Awdurdod yn penderfynu cadw rheolaeth ar y Plas ond pe byddai partneriaeth addas yn cael ei sefydlu, yna gellid lleihau unrhyw risg bosibl i'r Awdurdod yn sylweddol a byddai swm presennol y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo fod y system Hydro yn weithredol unwaith eto yn dilyn rhai problemau yn ystod y pandemig ac yn hapus i adrodd ei fod wedi cynhyrchu incwm gwerthfawr yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a aeth tuag at y gwaith o gynnal a chadw'r Plas. Y bwriad oedd ail-fuddsoddi'r incwm ar welliannau mewnol ond yn anffodus ni fu hynny'n bosibl oherwydd yr heriau ariannol i gynnal y model busnes yn y blynyddoedd diwethaf.
- Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hefyd yn hanfodol, yn ychwanegol at y gwariant ar y Plas, yr ymdrinnir â Llyn Mair er mwyn osgoi annog unrhyw ddarpar brynwyr i beidio â phrynu Plas Tan y Bwlch.
- Hafod Eryri - Cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo fod gwaith wedi dechrau i adfer yr adeilad a bod ail gam y gwaith adfer ar y to hefyd i fod i ddechrau cyn gynted â phosibl pan fydd trenau'n ailddechrau i'r copa ddiwedd Gwanwyn 2024.
- Yr Ysgwrn - Cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo y byddai'n costio tua £30,000 i osod y system gwresogi solar thermol a gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i'r byngalo. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Prif Weithredwr, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo na fyddai boeler nwy neu olew yn cael ei osod yn y byngalo fel yr oedd un awgrym mewn adroddiad Perfformiad Ynni.

- Nododd yr aelodau y rhaglen cynnal a chadw pum mlynedd. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo fod yr Awdurdod wedi buddsoddi yn yr ystafell gynadledda yn y Pencadlys i hwyluso cyfarfodydd hybrid. Dywedodd y Prif Weithredwr, gan fod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn talu Plas Tan y Bwlch am y gwasanaeth, y byddai'r Awdurdod yn gwneud arbediad ychwanegol pe bai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Pencadlys ond dywedodd hefyd, gan fod cyllid digonol ar hyn o bryd, ei fod yn dal yn opsiwn i gynnal. cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau o fewn y parc, pe bai'r Aelodau'n ffafrio'r opsiwn hwnnw.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r diweddariadau a'r datblygiadau a nodir yn yr adroddiad.**
2. **cefnogodd y Grŵp Rheoli Asedau argymhelliad 3.2.1 i ail-fuddsoddi £50,000 o'r incwm o feysydd parcio yn flynyddol i ariannu'r gwaith pan fydd y targed incwm wedi ei wireddu.**
3. **derbyn argymhelliad 3.3.1.**
4. **mabwysiadu'r rhaglen cynnal a chadw 5 mlynedd a nodir yn 3.8 o'r adroddiad.**
5. **galw cyfarfod is-grŵp arall ym mis Gorffennaf 2024 i adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau newydd.**

6. **Datgarboneiddio'r Ystad**

Cyflwynwyd – Cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo ar Ddatgarboneiddio'r Stad.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Eiddo gyflwyniad sleidiau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd hyd yma ar leihau ôl troed carbon Asedau'r Awdurdod.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion y cyflwyniad fel a ganlyn:-

- Croesawodd yr aelodau y cyflwyniad.
- Cynghorodd y Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo ar y pedwar prif gategori o gyfrifo carbon a bod Swyddogion wedi bod yn casglu data ers 2019/20. Nododd yr aelodau'r gwaith ychwanegol sydd ei angen ar gaffael.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo nad oedd y £100,000 yn arbediad arian parod ond yn arbediad yn ystod y flwyddyn oherwydd y gwaith a wnaed ar leihau carbon. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo ei fod wedi helpu i leihau'r her ariannol ac mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd ei fod eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Ychwanegodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr Awdurdod wedi gwneud arbediad ar filiau ynni ond bod y gost wedi cynyddu'n sylweddol ers blynyddoedd blaenorol.
- Nododd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi bod yn talu 70% yn llai na phris y farchnad am drydan ers blynyddoedd lawer ac unwaith y daw'r contract blaenorol i ben penderfynwyd ymrwymo i gontract dwy flynedd a ddylai ganiatáu i'r Awdurdod baratoi ymlaen llaw ac felly gallai arbediad pellach ddod i ben. o bosibl gael ei wneud ar filiau ynni wrth adnewyddu'r contract ymhen deuddeg mis.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo fod ffigyrau cyfredol ar gyfer defnydd trydan ar gael ar gyfer pob safle ac y byddai'n rhannu'r wybodaeth gydag Aelodau'r grŵp. Cadarnhaodd hefyd, yn dilyn rhai problemau gyda biliau, fod y defnydd o ynni bellach wedi gostwng a bod y ffigurau'n gwella.

- Mewn ymateb i gwestiwn, ynghylch cynnydd ar gaffael, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo fod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng y Prif Weithredwr a Chyngor Sir Conwy a bod yr Awdurdod wedi cael cynnig rhannu eu harbenigedd ar gaffael carbon.
- Cyfeiriodd yr Aelodau a'r Swyddog at ddefnydd sylweddol ar rai safleoedd, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo fod angen llawer mwy o waith o hyd i wella effeithlonrwydd ynni rhai o adeiladau'r Awdurdod a'i fod i gyfarfod â Chyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddarach y mis nesaf i drafod yr opsiwn o ddefnyddio cyfleusterau a rennir ar gyfer storio sych.
- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Eiddo fod llawer mwy o waith i'w wneud i wneud yr ystâd yn fwy effeithlon a rhoddodd wybod am y posibilrwydd o leihau ôl troed carbon staff yn y Pencadlys trwy rannu desgiau.

**PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.25.**